

TROSEDD A CHOSB YM MEIRIONYDD YN CHWEDEGAU  
CYNNAR Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHEG :  
TYSTIOLAETH COFNODION Y LLYS CHWARTER

R. Gwynedd Parry\*

*The following is a study of crime and punishment in Meirionydd between 1860 and 1865 as seen through the records of the Quarter Sessions. The author concludes that contrary to the popular belief that the criminal justice system of the period was the vehicle of landlord oppression, the overwhelming picture emerging is that of a forum dominated by complainants belonging to the lower classes who were willing to turn to the establishment for redress.*

**Rhagymadrodd**

CYFYNG yw gorwelion yr erthygl hon ar un olwg. Ceir ymdriniaeth o dystiolaeth ardal gymharol fechan o Gymru, sef yr hen Sir Feirionydd, dros gyfnod gymharol fyr, rhyw hanner degawd o 1860 i 1865, a'r dystiolaeth honno yn gyfyngedig i weithgaredd un fforwm arbennig o fewn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y Llys Chwarter. Serch hynny, y bwriad yma yw dadlennu cyfoeth y dystiolaeth a geir yng nghofnodion y Llys Chwarter mewn sir ac mewn cyfnod arbennig, a'r manteision sylweddol a ddaw i'r hanesydd cyfreithiol a chymdeithasol o bori yn eu cynnwys.

Trafod y trawsdoriad o euogfarnau, eu natur a'u hamgylchiadau, a geir yng nghofnodion y Llys Chwarter a wneir yma. Edrychir ar y nodweddion a berthyn i droseddu ym Meirionydd yn benodol, gan ystyried y modd y gellir priodoli'r nodweddion hynny i batrymau ehangach a thueddiadau mwy cyffredinol y cyfnod. Dadansoddir yr achosion hynny lie dyfarnwyd y diffynnydd yn euog (ar 61 prawf, neu ar 61 pledio'n euog, neu ar 61 ei draddodi i'w ddedfrydu wedi gwrandawriad yn y Llys Bach). Nid oes yma ystyriaeth o'r achosion hynny lie penderfynodd yr Uchel-Reithgor nad

---

\* Adran y Gyfraith, Prifysgol Cymru Abertawe. Rwyf yn ddiolchgar i Iwan Davies a Meirion W. Jones am eu hawgrymiadau gwerthfawr ar gynnwys ac arddull yr erthygl hon. Arna i mae'r bai am y diffygion a erys.

oedd achos i'w ateb, neu'r rheithgor-prawf fod y diffynnydd yn ddiuog. Nid wyf yn amau o gwbl na fyddai dadansoddiad o'r elfennau hynny o'r cofnodion o fudd mawr, ac efallai y caf gyfle i wyntyllu'r agweddau yma mewn erthygl arall yn y dyfodol.' Pa fodd bynnag, yn syml, arolwg sydd yma o natur ac amllder troseddu ym Meirionydd yn seiliedig ar gofnodion euogfarnau y Llys Chwarter, gydag ymgais i ddehongli'r wybodaeth a chanfod yr hyn a ddywed y dystiolaeth am gymeriad a gwerthoedd cymdeithas yn ystod y cyfnod o dan sylw.

Cofnodion y Llys a geir yn yr Archifdy Sirol yn Nolgellau oedd fy mhrif ffynhonnell wrth baratoi yr arolwg hwn. Y mae angen i mi egluro rhywfaint ar yr hyn a olygaf wrth ddefnyddio'r ymadrodd 'cofnodion'. Mae'r bocsys sydd yn cadw'r cofnodion yn yr Archifdy Sirol yn cynnwys gorchmynion dedfrydu, datganiadau tystion, ymrwymadau, calendrau carchardai ac adroddiadau'r heddlu, ynghyd â llyfrau archebu y Llys. Mae'r holl ddogfennau hyn wedi eu dosbarthu gyda'i gilydd mewn bocsys ar wahân yn 61 trefn pob eisteddiad o'r Llys, ac felly, wrth ddadansoddi gwaith troseddol y Llys, mater o gasglu gwybodaeth o gyfuniad o'r dogfennau hyn yw y gorchwyl. Yn y nodiadau, nid wyf wedi manylu p'un ai, dyweder, gorchmynion dedfrydu neu'r llyfr archeb oedd fy mhrif ffynhonnell: y mae'r nodyn yn cyfeirio at ba eisteddiad o'r Llys, ac felly y bocs perthnasol, y bûm yn pori ynddo, yn y gobaith y bydd hynny yn gyfeirnod digonol i'r darlennydd. Yn ogystal â phori yng nghofnodion y Llys bûm hefyd yn bwrw golwg ar adroddiadau'r wasg o'i gweithgareddau, yn arbennig felly y *Caernarvon and Denbigh Herald*. Bu hyn yn fodd i roddi cig a chnawd ar esgyrn y cofnodion eu hunain, gan ychwanegu rhywfaint ar fy ngwerthfawrogiad o amgylchiadau'r troseddau.

Yn dilyn cyhoeddi campwaith y diweddar Athro David Jones ar hanes troseddu yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gellid yn hawdd teimlo fod y maes hwn wedi ei aredig yn ddigonol.<sup>2</sup> Serch hynny, ymddengys fod hanes troseddu yn destun ac iddo ryw ddibendrawdod oherwydd helaethrwydd y ffynonellau, sydd, yn eu tro, yn datgelu

<sup>1</sup> Gweler, er enghraifft, Richard W. Ireland, "Putting Oneself on Whose Country? Carmarthenshire Juries in the Mid-Nineteenth Century", yn T.G. Watkin (gol.), *Legal Wales: Its Past; Its Future* (Caerdydd, 2001), tt. 63-88, sydd yn dadansoddi arwyddocâd penderfyniadau'r rheithgorau, gan gynnwys rhyddfarniadau.

<sup>2</sup> Rwyf yn cyfeirio at David J. V. Jones, *Crime in Nineteenth-Century Wales* (Caerdydd, 1992).

tystiolaeth newydd i haneswyr ei drafod a'i ddadansoddi.<sup>3</sup> Rhaid hefyd nodi pwysigrwydd traddodiad anrhydeddus astudiaethau lleol a'u cyfraniad amhrisiadwy tuag at gyfoethogi ein dealltwriaeth o swyddogaeth a dylanwad y llysoedd ar gymdeithas y cyfnod hwn; yn wir astudiaethau o'r fath sydd yn y pen draw yn galluogi'r hanesydd i weld y patrymau ehangach.<sup>4</sup> Mantais astudiaethau o'r math yma yw ei bod yn bosibl, wrth fabwysiadu terfynau cyfyngedig, trafod y dystiolaeth yn fwy hamddenol a'i chyflwyno yn fwy manwl a chyflawn i'r darlennydd o fewn cyfyngiadau traethawd fel hwn. Fel cyfraniad syml i'r traddodiad hwn o ysgolheictod y cyflwynir yr hyn o lith i'r darlennydd. Gan derfynu'r rhagymadrodd, ystyriwn yn gyntaf y cefndir hanesyddol.

### Cefndir Hanesyddol

Ar un olwg, roedd Sir Feirionydd yr un mor anghysbell ag anhygyrch yn ystod canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ag y bu ar hyd y canrifoedd. Roedd rhesymau amgylcheddol, naturiol i gyfrif am hyn. Amgylchynid y Sir gan fynyddoedd caerog, a dim ond drwy'r dyffrynnoedd cul neu'r môr y gellid cyrraedd y canolfannau poblog. Bu'r warchodaeth naturiol hon, a'r ffyrdd diarhebol o sâl, yn fodd i wrthsefyll dylanwadau cyfnod o chwyldro diwydiannol a chymdeithasol i raddau helaeth iawn.<sup>5</sup> Sir ydoedd â thrwch ei phoblogaeth o hyd yn dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth a'r tir am eu bywoliaeth.

Eto, er hyn, bu datblygiadau yn ystod y cyfnod a fu'n fodd i gyflwyno'r byd modern i Feirionydd dawel, wledig. Efallai mai un o'r datblygiadau pwysicaf oedd agor y rheilffordd o Fachynlleth i Aberystwyth yn 1863, gan gyflwyno trafndiaeth a chysylltiadau newydd i drigolion pen deheuol y

<sup>3</sup> Gweler n. 1

<sup>4</sup> I nodi un enghraifft ardderchog, gweler Susan C. Ellis, "Observations of Anglesey life through the Quarter Sessions Rolls 1860-1869", *Cylchgrawn Cymdeithas Hynafieithau Moŵn* (1986), t. 117.

<sup>5</sup> Gweler R. T. Pritchard, "Merionethshire Roads and Turnpike Trusts", (1961) IV *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionnydd*, tt. 22-25; L. Thorpe (gol.), *The Journey through Wales and the Description of Wales* (Harmondsworth, 1980), t. 182:

"gorau gwlad rhwng nef a llawr,  
ond rhag gwaethed ei ffyrdd fawr", medd Lewis Morris.

Sir.<sup>6</sup> Yr oedd dyfodiad y rheilffordd yn un o'r digwyddiadau mwyaf chwyldroadol, a bu ei effaith yn bellgyrhaeddol ar y gymdeithas wledig.<sup>7</sup> Bu hwn yn gyfnod o drai economaidd ar un Haw, yn enwedig yn y diwydiannau traddodiadol megis amaethyddiaeth a'r diwydiant gwlân,<sup>8</sup> ac ar y Haw arall yn gyfnod o gynnydd yn y diwydiannau newydd, ac yn arbennig y diwydiant llechi a fu'n fodd i drawsnewid y gymdeithas mewn rhai rhannau o'r Sir. Ni cheir enghraifft amlycach o hyn na'r tyfiant aruthrol ym mhlwyf Ffestiniog rhwng 1801 a 1881. Tyfodd poblogaeth y plwyf o 732 ar droad y ganrif i 11,272 erbyn 1881, a chydag ef ddatblygiad tref Blaenau Ffestiniog.<sup>9</sup> Yn 1861 roedd tua 1,215 o chwarelwyr yn y plwyf, a chynyddodd hynny i 4,265 erbyn 1881.<sup>10</sup> Denwyd nifer o weithwyr o siroedd cyfagos â thu hwnt i ganfod gwaith yn y chwareli. Mae adroddiadau am droseddwyr y cyfnod yn awgrymu fod nifer ohonynt â'u gwreiddiau y tu allan i'r Sir, rhywbeth yr oedd Cadeirydd y Llys Chwarter ym Meirionydd yn awyddus i'w bwysleisio." Ceir adroddiadau'r wasg y cyfnod yn datgelu rhywfaint ar wreiddiau y troseddwyr wrth gyfeirio at 'Robert Trefriw' a 'John Bangor'.<sup>12</sup> Mae cynnwys yr erthygl yma yn cwmpasu rhan o ganol cyfnod y tyfiant aruthrol hwn ym mhoblogaeth ardaloedd chwarelyddol Sir Feirionydd.

Cynhelid y Llys Chwarter ym Meirionydd yn Nolgellau a'r Bala bob yn ail erbyn y cyfnod yma. Yr oedd yr haul wedi machlud ar ogoniant Harlech fel canolfan weinyddol a chyfreithiol ers tro byd.<sup>13</sup> Ymwelai'r Llys â'r Bala

<sup>6</sup> Gweler A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd, 1933), t. 122.

<sup>7</sup> Gweler David Howell, "The Impact of Railways on Agricultural Development in Nineteenth Century Wales", (1974) 7(1) *Cylchgrawn Hanes Cymru*.

<sup>8</sup> Dodd, op. cit., t. 119-124.

<sup>9</sup> Dodd, op. cit., t. 220; John Davies, *Hanes Cymru* (Harmondsworth, 1990), tt. 391-392; Yr oedd y tyfiant hwn yn gymharol a thwf poblogaeth yn y trefi mawrion drwy Brydain yn yr un cyfnod: gweler hefyd Leon Radinovicz, *A History of English Criminal Law and its Administration from 1750*, Cyfrol III (Llundain, 1956), t. 45.

<sup>10</sup> Dodd, op. cit., t. 221.

<sup>11</sup> *Caernarvon and Denbigh Herald*, 9 Ionawr 1864.

<sup>12</sup> *Caernarvon and Denbigh Herald*, 4 Ionawr 1862.

<sup>13</sup> Ceir hanes y Llys Chwarter yn Sir Feirionydd o'i sefydlu yn rhagymadrodd Keith Williams Jones, *A Calendar of the Merioneth Quarter Sessions Rolls, Vol I: 1733-65* (Dolgellau, 1965).

yn y gwanwyn a'r Hydref, a Dolgellau yn y gaeaf a'r haf. Cyflwynwyd y Llys Chwarter i Gymru yn sgil Deddfau Uno 1536 a 1543,<sup>14</sup> a chyflawnai amryw o swyddogaethau, fel y llys barn i ddelio gyda materion troseddol a hefyd fel y fforwm gweinyddol yn y Sir gyda chyfrifoldeb dros lywodraeth leol hyd nes sefydlu'r cynghorau sir yn 1888.<sup>15</sup> Y Llys Chwarter oedd y llys canol o fewn hierarchaeth llysoedd prawf y gyfundrefn gyfreithiol droseddol yn y cyfnod yma. Uwchben y Llys Chwarter ceid y Frawdlys, a gyflwynwyd i Gymru mor ddiweddar â 1830, llys a brofai'r achosion troseddol mwyaf difrifol, gyda barnwyr 'coch' yr Uchel Lys yn goruchwyllo, a rheithgor yn penderfynu'r ddedfryd.<sup>16</sup> Oddi tan y Llys Chwarter ceid y Llys Bach (*petty sessions*), sef rhagflaenydd llysoedd ynadon ein dyddiau ni. Y Llys Chwarter oedd, yn syml, y llys a brofai'r achosion hynny a haeddai eu profi gan reithgor, er nad oeddynt yn ddigon difrifol i'w profi yn y Frawdlys.<sup>17</sup> Achosion o ddifrifoldeb canolig, felly, oedd prif waith troseddol y Llys.

Llywyddion y Llys Chwarter oedd yr ynadon a oedd, yn gyffredinol, yn hanu o'r hen bendefigaeth a lywodraethai'r Sir ers canrifoedd. Un teulu a

---

<sup>14</sup> Gweler hanes sefydlu'r llysoedd chwarter yn W. Ogwen Williams, *Calendar of the Caernarvonshire Quarter Sessions Records, Cyfrol 1 1541-1558* (Caernarfon, 1956), a Keith Williams Jones, op. cit, rhagymadrodd, t. xxvi et seq. Ceir grynodeb hefyd yn H.J. Owen, "Meirioneth Quarter Sessions Rolls and Nomina Ministrorum", (1948) I *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, tt. 185—189.

<sup>15</sup> Deddf Llywodraeth Lleol 1888. Yn y cyfnod hwn byddai'r Llys Chwarter yn gyfrifol am oruchwyllo trwsio'r ffyrdd a'r pontydd a gofalu am holl anghenion llywodraeth lleol.

<sup>16</sup> Gweler John Davies, op. cit, t. 350. Diddymwyd llysoedd y Sesiwn Fawr, a sefydlwyd o dan y Deddfau Uno, yn 1830 a'u cyfnewid gyda'r Brawdlysoedd (*assizes*), gan ymgorffori Cymru o fewn y drefn Seisnig a fodolai ers canrifoedd cyn hynny.

<sup>17</sup> Diddymwyd y Llys Chwarter yn 1971, a'i ymgorffori gyda'r Frawdlys o fewn llys unedig sef Llys y Goron a grëwyd yn dilyn argymhellion yr Arglwydd Beeching yn ei adroddiad, *Report of the Royal Commission on Assize and Quarter Sessions*, Cmnd 4153 of 1969. Ymysg y gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad ynglŷn a gwaith y llysoedd chwarter oedd eu bod yn rhy leol yn eu trefniadaeth, eu bod yn or-ddibynnol ar farnwyr lleyg a rhan amser, ac felly fod hyn yn arwain tuag at oedi afresymol wrth ddelio gyda'r achosion, ac anghysondeb mewn dedfrydu.

gynrychiolai'r oruchwyliaeth hon ym Meirionydd oedd y teulu Price a drigai yn eu plasty yn Rhiwlas ym mhlwyf Llanfor ger y Bala. Ar ddechrau'r chwedegau safai Richard Watkin Price yn yr olyniaeth, a cheir cyfeiriadau ato, ac aelodau eraill o'r teulu, yn weithredol yn y Llys.<sup>18</sup> Ymysg nodweddion cymdeithasol cyffredin yr ynadon oedd perchnogaeth tir, addysg freintiedig a chysylltiadau proffesiynol gyda'r eglwys, y fyddin neu'r gyfraith, ac yr oedd yr ynadon bron yn ddieithriad yn meddu ar un neu ragor o'r nodweddion hyn. Cadeirydd y Llys yn y cyfnod hwn oedd Richard Meredyth Richards, Caerynwch, bargyfreithiwr a wasanaethodd fel Uchel Siryf yn 1865, ac un a olynodd ei dad a'i daid i'r proffesiwn cyfreithiol.<sup>19</sup> Fe'i penodwyd yn Gadeirydd Llys Chwarter Meirionydd yn 1857, a gwasanaethai fel ynad yn Sir Ddinbych yn ogystal.<sup>20</sup> Mae yn ffigwr blaenllaw yng ngweithrediadau'r Llys yn 61 adroddiadau'r cyfnod.

Dirprwy Gadeirydd y Llys Chwarter oedd yr hynafieithydd enwog William Watkin Edward Wynne o Beniarth ym mhlwyf Llanegryn. Yn ŵr hynod ddiwylliedig ac yn gynnyrch Ysgol Westminster a Rhydychen, gwnaeth gymwynas mawr a Chymru drwy arbed a gwarchod rhai o

---

<sup>18</sup> Ceir fersiwn o'r achau yn J.E. Griffith, *Pedigrees of Caernarvonshire and Anglesey Families* (Horncastle, 1911), tt. 248-249; gweler hefyd R.T. Jenkins (gol.) *Y Bywgraffiadur Cymreig* (Llundain, 1959) tt 735; J. Gwynfor Jones, "Law and Order in Merioneth after the Acts of Union 1536^43", (1986) X *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, tt. 122-123; Peter R. Roberts, "The Social History of the Merioneth Gentry circa 1660-1840", (1963) IV *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, t. 216.

<sup>19</sup> Gweler ei bedigri cyfreithiol yn H. J. Owen, "Chief Baron Richards of the Exchequer", (1961) IV *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, tt. 37^16; gweler hefyd grynodedb yn Thomas Nicholas *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales* (Llundain, 1872), Cyf. I, t. 415 a Cyf. II, t. 707-714; *Bywgraffiadur Cymreig*, op. cit.t. 799. Ei daid oedd Syr Richard Richards, "y Barwn Richards", a ddyrchafwyd yn Arglwydd Brif Farwn Cwrt y Siecr yn 1817, a hynny wedi gyrfa nodedig, ac a gladdwyd yn y Demi Fewnol yn 1823. Bu ei dad, Richard Richards, hefyd yn llwyddiannus ym myd y gyfraith gan ddiweddu ei yrfa yn Feistr Llys Siawnsri, ymysg llawer o anrhydeddau a swyddogaethau eraill.

<sup>20</sup> Ceir trafodaeth ar gyfansoddiad cymdeithasol y famwriaeth yn Lloegr yn Daniel Duman, *The Judicial Bench in England 1727-1875*, (Llundain, 1982).

lawysgrifau amhrisiadwy y genedl.<sup>21</sup> Gwasanaethodd y Sir yn y Senedd o 1852 hyd at 1865, pryd y'i hollynwyd gan ei fab, W.R.M Wynne. Yn Geidwadwr ac yn Uchel-Eglwyswr nodedig, bu ond y dim iddo golli ei sedd yn etholiadau enwog 1859 i'r Rhyddfrydwr David Williams, Castell Deudraeth, gan mai dim ond trideg-naw pleidlais oedd ynddi. Enillodd ymateb y tîrffeddiawyr i'r bygythiad hwn i'w buddiannau le annileadwy yn chwedloniaeth gwerin radicalaidd, wrth i nifer o'r tenantiaid a bleidleisiodd o blaid y Rhyddfrydwr gael eu troi o'i ffermydd gan y landlordiaid.<sup>22</sup> Trodd R. W. Price, Rhiwlas, bump o'i denantiaid o'u ffermydd, a throdd Syr Watkin Williams Wynne saith tenant o'u ffermydd, gan godi rhent saith arall a fethodd a phleidleisio o gwbl. Yn arwyddocaol, yn y flwyddyn 1859 y ganwyd Thomas Edward Ellis yn y Cynlas ym mhlwyf Llandderfel,<sup>23</sup> un a fyddai maes o law yn cynrychioli'r etholaeth yn enw Radicaliaeth Ryddfrydol Gymreig.<sup>24</sup> Un a fyddai yn ddi-os yn rhannu diddordebau ac anian W.W.E. Wynne ac a wasanaethai fel ynad yn y Llys Chwarter oedd John Pughe, Bryn-awel, Aberdyfi, neu loan ab Hu Feddyg fel y'i hadwaenid yn y cylchoedd llenyddol.<sup>25</sup> Yn llawfeddyg a Chymrawd o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon, yr oedd yn awdur llawer o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys cofiant o Eben Fardd yn Gymraeg, a chyfieithiad Saesneg o "Meddygon Myddfai", *"The Physicians of Myddfai"*. Un arall a wasanaethai fel ynad yn y Llys Chwarter oedd y

<sup>21</sup> Ceir ei hanes gan Gildas Tibbott, "William Watkin Edward Wynne", (1949) I *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, tt. 69-77.

<sup>22</sup> Gweler adroddiad o'r hanes gan Ieuan Gwynedd Jones, "Merioneth Politics in the mid-nineteenth century", a D.G. Lloyd Hughes, "David Williams, Castell Deudraeth and the Merioneth elections of 1859, 1865 and 1868", y ddwy erthygl yn (1968) V *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*. Ceir syniad o hanes y gynrychiolaeth seneddol yn y ganrif flaenorol gan Peter D. G. Thomas, "The Parliamentary Representation of Merioneth during the Eighteenth Century", (1958) III *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, t. 128 et. seq.

<sup>23</sup> Aelod Seneddol Rhyddfrydol Sir Feirionydd o 1886 hyd 1899, pan fu farw, ac aelod o lywodraeth Gladstone o 1892 hyd ei farwolaeth. Ymhlith y cyntaf o fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, tyfodd yn eilun cenedl, a gellir ei gyfrif fel un o arwyr modern cyntaf y 'werin' Gymreig.

<sup>24</sup> Gweler Thomas Iorwerth Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant Cyfrol I a II* (Lerpwl, 1944^8).

<sup>25</sup> Gweler amlinelliad o'i hanes yn Thomas Nicholas, op. cit, cyf. II, t. 706. Ceir rhagor o fanylion yn y *Bywgraffiadur Cymreig*, op. cit., t. 814.

Parchedig John Jones, Rheithor Llanaber. Mab ydoedd i Griffith Jones, Bryntirion, Dolgellau, a derbyniodd ei addysg yn Rhuthun a Rhydychen.<sup>26</sup> Gellir dadlau ei fod yn cynrychioli traddodiad y sgweiar-berson, a cheir amryw o offeiriadon eraill yn ymddangos yng nghofnodion y Llys. Er bod yr ynadon yn bur ddiwylliedig, a llawer ohonynt yn medru'r Gymraeg, nid oedd cynrychiolwyr y Gymru Radicalaidd, Ryddfrydol, Anghydfurfiol wedi cario'r dydd eto cyn belled ag ennill awdurdod gwleidyddol yn y Sir neu sefydlu presenoldeb sylweddol ar fainc y Llys Chwarter. Ceir yr argraff o'r cofnodion fod yr hen drefn yn parhau o hyd i raddau helaeth iawn.

Ond nid yw'r darlun hwn yn cyfieu'r sefyllfa yn hollol gyflawn ychwaith. Ymddengys fod rhai aelodau o'r dosbarth canol cyfoethog yn dechrau ennill dylanwad a gwelir yn y cofnodion enwau rai ohonynt yn gwasanaethu fel ynadon. Un amlwg oedd Lewis Williams, Fronwnion, Dolgellau, mab i fasnachwr yn y dref, ac un a wnaeth yrfa lwyddiannus iddo'i hun fel bancwr, gan sefydlu ei gwmni ei hun, *Williams and Sons*.<sup>27</sup> Enillodd hwn ei gyfoeth trwy ei ddoniau a'i ddyfeisgarwch ei hun yn hytrach na thrwy etifeddu'r cyfan; y "self-made man" y rhoddid bri arno yn y gymdeithas honno. Gwasanaethodd fel Uchel Siryf yn 1864. Ceir hefyd gyfeiriad at Dr Owen Richards, brodor yn enedigol o Lanilar yng Ngheredigion a oedd yn llawfeddyg yn y Bala, ac yn ffyddlon fel ynad yng nghynulliad y Llys yno. Pan yn ddyd ifanc, gwasanaethodd fel cenhadwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mryniau Khasia, gan briodi un o deulu yr enwog Charles o'r Bala.<sup>28</sup> Ond bu rhyw ddigwyddiad anffodus yn ei hanes a chafodd ei anfon adref o'i genhadaeth yn 1844. Gwnaeth yn iawn am hyn drwy adael yr 'Hen Gorff ac ymuno â'r Eglwys, ac erbyn 1857 yr oedd wedi ei benodi yn ynad, a Bryniau Khasia a'u cyfrinach bellach yn angof.<sup>29</sup>

<sup>26</sup> Gweler Thomas Nicholas, op. cit, t. 704.

<sup>27</sup> Edward Breese, *Calendars of Gwynedd* (Llundain, 1873), t. 85 : W.F. Crick a J.E. Wadsworth, *Canrifo Hanes Bane Gogledd a Deheudir Cymru, The North and South Wales Bank* (Llundain, 1936), tt. 8-9.

<sup>28</sup> Priododd â Maria Charles, merch i Thomas Rice Charles, sef mab y Parchedig Thomas Charles. Priododd merch arall i Thomas Rice Charles, sef Jane Charles, â Lewis Edwards, sylfaenydd a phrifathro cyntaf Coleg Diwinyddol y Methodistiaid yn Y Bala.

<sup>29</sup> Ceir cyfeiriad at hyn yn J.H. Morris, *Hanes Cenhadaeth Dramory Methodistiaid Cymreig* (Caernarfon, 1907).



Dyma, yn fras, y cefndir cymdeithasol a'r cyd-destun hanesyddol y perthyn y cofnodion sydd yn ffurfio gwrthrych yr astudiaeth bresennol. Dyma gyfnod yr hen drefn a fodolai ers canrifoedd yn rhygnu ymlaen ar yr un Haw, ac ar y Haw arall y dylanwadau newydd ar waith yn rhagfynegi'r newidiadau a oedd i drawsnewid y sefyllfa erbyn diwedd y ganrif.<sup>30</sup> Dechrau cyfnod o newid cymdeithasol mawr oedd hwn. A yw gwaith troseddol y Llys Chwarter yn adlewyrchu'r sefyllfa gymdeithasol, ac a ddengys y cofnodion arwyddion o'r croeswyntoedd a oedd yn chwythu ac yn graddol newid y tirlun? With ddidoli'r troseddau, er hwylustod, gellir eu gosod a'u trafod o dan bedair prif bennawd, sef troseddau eiddo, troseddau trais, troseddau yn erbyn yr heddlu a mân-droseddau eraill. Cyffredinoli wrth gwrs yw rhaniad twt fel hwn, ac fel y dengys y cofnodion, nid yw'r ffiniau yn rhai pendant o gwbl, gyda rhai troseddau y gellir fod wedi eu trafod o dan sawl pennawd.

### Troseddau Eiddo

Ceir amrywiaeth helaeth o droseddau yn y cofnodion i'w hystyried o dan y pennawd hwn, yn amrywio o ladradau o fanion bethau (prin y gellid fod wedi rhoi unrhyw bris neu werth o gwbl arnynt), i dwyllo gweddol soffistigedig gydag arian ffug. Diddorol hefyd yw darllen adroddiadau'r wasg ar wrandawiadau'r llys, a'r modd y rhoddai'r Cadeirydd y bai am y twf mewn troseddu o'r fath yma ar ddyfodiad mewnfudwyr i'r Sir. Dro ar 61 tro ceir cyfeiriad at y dirwasgiad yn y diwydiant cotwm yng Ngogledd Lloegr, a'r mewnfudo o ddynion ifanc yn chwilio am waith.<sup>31</sup> Ymddengys y cymerai'r Cadeirydd rhyw gymaint o gysur yn ei gred mai'r mewnfudwyr oedd yn bennaf gyfrifol am y twf yma mewn troseddu.<sup>32</sup> Er hynny, nid yw'r cofnodion yn dueddol o gadarnhau cywirdeb yr agwedd yma, a gellir

<sup>30</sup> Ceir ymdriniaeth o'r cyfnod yn H.C.G. Matthew, "The Liberal Age" yn Kenneth O. Morgan (gol.), *The Oxford History of Britain* (Rhydychen, 1983), tt. 518-582.

<sup>31</sup> Gweler adroddiadau yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, 12 Ebrill 1862, 10 Ionawr 1863, 4 Gorffennaf 1863 a 12 Ionawr 1864. Ceir ymdriniaeth o'r problemau a ddaeth yn sgil symudiadau niferus o'r boblogaeth yn D.J.V. Jones, *Crime, Protest, Community and Police in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1982), t. 181-182.

<sup>32</sup> *Caernarvon and Denbigh Herald*, 12 Ebrill 1862.

dweud gyda chryn sicrwydd mai Cymry oedd y troseddwy'r amlycaf, nifer helaeth ohonynt yn frodorion y Sir.

Yn ystod sesiwn y Pasg 1862 cofnodir fod nifer o Saeson a Gwyddelod a ddisgrifir fel "tramps" wedi eu dyfarnu'n euog o fân ladradau yn amrywio o ddwyn esgidiau gweithwyr i ddwyn o siopau, megis yn yr achos lie cymerodd Robert Peakes bâr o gyfrwyau gan siopwr o'r enw George Roberts yn y Bala.<sup>33</sup> Ymddengys Robert Peakes yn ami yn y cofnodion. Bu iddo ladrata swllt a hanner-coron oddi wrth Thomas Jones a chael ei ddedfrydu i chwe wythnos o garchar gyda llafur caled.<sup>34</sup> Ymddangosodd eto yn sesiwn ganlynol y Llys, ac yntau wedi dwyn tegell copr gwerth dau swllt o eiddo David Williams, Castell Deudraeth. Y tro hwn, derbyniodd ddedfryd o ddeufis o garchar gyda llafur caled.<sup>35</sup> Ymhen dwy flynedd, ymddangosodd eto gerbron y Llys am ddwyn sylltau aur, a chafodd dri mis o garchar.<sup>36</sup> Rhaid cofio ei fod, o bosibl, wedi ymddangos gerbron y Llys Bach yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal. Gwelir yma, felly, enghreifftiau o fewnfudwyr yn troseddu ac ail-droseddu yn gyson, ac adwaith y Llys i hyn.

Mewnfudwyr yn sicr oedd y tri a dorrodd i mewn i Gapel Peniel, Llanuwchllyn ym mis Tachwedd 1863 gyda'r bwriad o ddwyn eiddo'r Capel. Ymddengys o'r cofnodion mai Syr Watkin Williams Wynn oedd perchennog y Capel. Daliwyd Thomas Duffy, William Jackson a William Brennan ac fe'u profwyd yn euog o'r fwrgeriaeth wedi gwrandawriad yn y Llys. Ddedfrydwyd Duffy i dri mis o garchar gyda llafur caled, gyda Jackson a Brennan yn derbyn blwyddyn o garchar ill dau gan eu bod wedi troseddu o'r blaen.<sup>37</sup> Pwysleisiodd Cadeirydd y Llys, W. W. E. Wynne ar yr achlysur hwn, mai dyfodiad dieithriaid i'r Sir oedd yn gyfrifol am y chwa o droseddu, ac mai adeiladu'r rheilffyrdd oedd yn eu denu.<sup>38</sup> Wrth edrych ar batrymau troseddu y mewnfudwyr, gellir dweud fod ail-droseddu yn nodwedd amlwg, a gwelir eu henwau yn ailymddangos yn y cofnodion yn gyson. Hefyd, nodwedd arall ddiddorol yw fod y mewnfudwyr yn dueddol o weithredu mewn grwpiau, megis yn achos y fwrgeriaeth uchod, a hynny

<sup>33</sup> Gwasanaeth Archifau Gwynedd (GAG), Cofnodion Llys Chwarter Meirionydd (CLICHM), Pasg 1862.

<sup>34</sup> GAG, CLICHM, Gaeaf 1862.

<sup>35</sup> GAG, CLICHM, Pasg 1862.

<sup>36</sup> GAG, CLICHM, Hydref 1864.

<sup>37</sup> GAG, CLICHM, Gaeaf 1864.

<sup>38</sup> *Caernarvon and Denbigh Herald*, 9 Ionawr 1864.

yn amlach na'r brodorion. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn cynllwynio a pharatoi ymysg ei gilydd cyn mentro i droseddu. Y maent hefyd yn dueddol o fod yn fwy beiddgar yn eu dulliau, ac ymddengys nad ydynt yn poeni gormod am statws y dioddefwr, oherwydd ceir sawl enghraifft o'r grwpiau hyn yn lladrata oddi wrth y pendefigion.

Nid y mewnfudwyr yn unig sydd yn ymddangos yn y cofnodion mewn perthynas â throseddau lladrad. Ceir adroddiadau am ferched brodorol yn troseddu, a diddorol yw'r cofnod o Elizabeth Jones a ymddangosodd gerbron y Llys ar gyhuddiad o ddwyn dau ddarn o ddefnydd sidan. Edrydd y cofnodion ei bod wedi cyfaddef ei throsedd, gan egluro mai dyma'r tro cyntaf iddi ymddangos o flaen ei gwell. Cafodd ddedfryd o fis yng Ngharchar Dolgellau.<sup>39</sup> Ceir nifer o ladradau o fewn cyd-destun gwas a'i feistr, neu gydweithwyr, a hynny'n awgrymu fod agoswydd y berthynas yn rhoi'r cyfle i ddwyn. Adroddir am Richard Richards yn lladrata carped oddi wrth William Evans, ffermwr o Landrillo, ac yntau yn gweithio fel gwas iddo.<sup>40</sup> Cymerodd Samuel Jones grys gwlanen o eiddo John Davies, ill dau yn weision ar fferm Blaendinam, Llandrillo.<sup>41</sup> Gwelir enghreifftiau o ferched yn dwyn oddi wrth eu cyflogwyr yn ogystal, megis achos Ann Williams a gymerodd siôl gwerth bum swllt gan ei meistres, Mrs Jane Jones, a'i dedfrydu i chwe wythnos o garchar gyda llafur caled.<sup>42</sup>

Ceir adroddiad llawn o achos Isaac Hughes, a gyhuddwyd o ddwyn oriawr arian gwerth tair punt o eiddo Thomas Vaughan.<sup>43</sup> Yr oedd y ddau yn weision yn fferm Penybont, Llansanffraid Glyndyfrdwy, ac ar ryw achlysur gadawodd Vaughan ei oriawr yn crogi o hoelen ger ei wely yn y llofft stabl, cyn mynd allan i weithio yn y cae. Gwelodd Hughes ei gyfle, a chymerodd yr oriawr. Pan ddarganfuwyd fod yr oriawr ar goll, gwadodd Hughes ei fod yn gwybod dim o hanes y peth. Hysbyswyd yr heddlu, a daeth y Rhingyll Hugh Williams o Gorwen i gynnal ymholiadau, ac yn y man, wedi edrych yng nghyffiniau'r gwellt lie cysgai Hughes, fe ddarganfuwyd yr oriawr. Pan gyhuddwyd Hughes o'r lladrad, ei ymateb oedd honni ei fod am ddychwelyd yr oriawr y diwrnod canlynol. Dyfarnwyd ef yn euog gan y Llys, a chafodd ei ddedfrydu i fis o garchar yn

<sup>39</sup> GAG, CLICM, Hydref 1862.

<sup>40</sup> GAG, CLICM, Gaeaf 1861.

<sup>41</sup> GAG, CLICM, Pasg 1862.

<sup>42</sup> GAG, CLICM, Hydref 1861.

<sup>43</sup> GAG, CLICM, Haf 1860.

Nolgellau. Y mae'r achos hwn yn gwbl nodweddiadol o'r math yma o droseddu, lie nad oes unrhyw gynllwynio gofalus neu rag-baratoi, a'r hyn a geir yw diffynnydd yn manteisio ar sefyllfa neu amgylchiadau ar y pryd. Troseddu byrfyfyr a byrbwyll oedd hyn. Pâr o drowsus melfaréd a gymerodd Simon Parry o'r ty lle'r oedd yn lletya ynddo yn y Bala, a ffoi tua Chaernarfon, lie y cafodd ei ddal a'r trowsus amdano. Wrth iddo gael ei arestio, dywedodd ei fod wedi cymeryd y trowsus am ei fod ychydig yn fwy na'i drowsus ef, a'i fod wedi gadael ei hen drowsus ar 61.<sup>44</sup> Ni ellid fod wedi ei gyhuddo o sinigiaeth beth bynnag!

Diddorol hefyd yw'r cofnodion am blant a throseddwyr ifanc o fewn y categori hwn. Ceir cofnod o achos Evan Williams, bachgen 14 oed, a ddygodd oriawr oddi wrth was fferm yng Ngwyddelwern. Ei ddedfryd oedd iddo gael ei chwipio gan y Rhingyll Hugh Williams yn y carchar yng Nghorwen.<sup>45</sup> Felly hefyd yn achos Simon Williams, 11 oed, a gafodd ei chwipio ddeuddeg gwaith am ddwyn peint o laeth, a William Williams, un arall a gafodd yr un gosb am ddwyn dau wy. Yn yr un eisteddiad o'r Llys, carcharwyd Jane Williams, deuddeg oed, am chwe awr yng ngharchar Nolgellau am ddwyn peint o laeth.<sup>46</sup> Y mae'r diffyg cydbwysedd rhwng gwerth y gwrthrych a gymerid a llymder y gosb yn drawiadol iawn yn yr achosion hyn. Diddorol yw sylwi ar y ffaith mai bwyd a diod a ddygid gan lawer o'r plant, sydd yn adlewyrchu'r ffaith fod tlodi'r gymdeithas yn taro ar rai o bob oedran.

Er y gwyddai unrhyw un a ladratai oddi wrth y bonedd fod cosb drom yn ei wynebu ar 61 ei ddal, nid oedd hynny'n ddigon i atal rhai o'r brodorion rhag lladrata eiddo'r tîrfeddianwyr a'r cyfoethogion. Cymerodd Catherine Jones o'r Bala goed tân gwerth swllt o lard Henblas yn Y Bala,<sup>47</sup> eiddo Charlotte Price a Hywel Hedd Lloyd Clough, ymddiriedolwyr Richard Watkin Price Rhiwlas, a fu farw ym Mehefin 1860.<sup>48</sup> Yr oedd Charlotte Price yn weddw i R. J. Price, mab Richard Watkin Price, a fu farw cyn ei dad yn 1842. H. H. Lloyd Clough oedd Prif Gwnstabl cyntaf

<sup>44</sup> GAG, CLICM, Haf 1860.

<sup>45</sup> GAG, CLICM, Haf 1863.

<sup>46</sup> GAG, CLICM, Hydref 1864.

<sup>47</sup> GAG, GLICM, Gaeaf 1861, hefyd GLICM, Haf 1861.

<sup>48</sup> Gweler J. E. Griffith, op. cit., t. 248 & 299: GAG, Census 1861, Llanfor, Meirionydd.

Heddlu Meirionydd pan sefydlwyd hwnnw yn 1856, un a oedd yn Gymro rhugl ei Gymraeg.<sup>49</sup> Am ei throsedd, dedfrydwyd Catherine Jones i fis o garchar. Tebyg oedd achos Robert Humphreys a gymerodd goed helyg werth swllt a chwech o feddiant Richard Dobson, Ysw., Frondderw, Y Bala. Ei gosb am ei weithred oedd pythefnos o garchar gyda llafur caled.<sup>50</sup> Adlewyrcha llymder y gosb bwysigrwydd y sawl a droseddwyd yn ei erbyn yn hytrach na gwerth yr eiddo a gymerwyd, neu ddrygioni'r drwgweithredwr. Gwelir yma enghreifftiau clasurol o'r Llys yn gwneud esiامل o droseddwr fel rhybudd i eraill, ac yn atgyfnerthu statws y tiffeddianwr a'r parch a ddisgwyliwyd tuag at eiddo, waeth pa mor fychan fyddai'r gost o'i gollu.

Yr oedd dedfryd y Llys yn adlewyrchu agwedd yr ynadon tuag at gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys natur y drosedd, pwysigrwydd y dioddefwr, ynghyd â chymeriad y troseddwr. Trosedd ddifrifol yng ngolwg y Llys oedd bwrgheriaeth, ac yn 1861 plediodd Thomas Phillips yn euog i fwrgheriaeth ar anedd yn Llanymawddwy. Pan gyflawnodd y drosedd yr oedd yn rhwym o dan amodau trwydded yn unol â Deddf Penyd-Wasanaeth 1857,<sup>51</sup> ac yntau wedi cael ei ryddhau o'r carchar ar 61 ei ddedfrydu i chwe blynedd o garchar yn Llys Chwarter Môn yn 1855. Y tro hwn fe'i hanfonwyd i garchar am saith mlynedd.<sup>52</sup> Yr oedd ail-droseddu yn sicrhau y byddai'r gosb yn drymach y tro hwn.

Troseddau eraill a enynnai gosbi trwm yn y Llys oedd y rhai hynny'n ymwneud â thwylllo a chymeryd eiddo trwy dwyll. Ceir adroddiadau llawn o'r achosion hyn yn y wasg, ac y mae'n amlwg fod dulliau'r twyllwyr o weithredu o gryn ddi-ddordeb i ddarllenwyr y papurau newydd. Yn achos

<sup>49</sup> Gweler, H. Kenneth Birch, op. cit., t. 47.

<sup>50</sup> GAG, CLICM Pasg 1861.

<sup>51</sup> Yr oedd y Ddeddf wedi ei chyflwyno i ddatrys gorboblogaeth yn y carchardai wedi diddymu trawsgludo i Awstralia fel ffurf ar gosb: Gweler ymdriniaeth a'r testun yma yn Victor Bailey (gol.) *Policing and Punishment in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1981), tt. 20-21, 139-141; H.J. Owen, *From Merioneth to Botany Bay* (Bala, 1952) : J.J. Tobias, *Nineteenth Century Crime, Prevention and Punishment* (Newton Abbott, 1972), t. 153, et seq. : W.R. Cornish and others, *Crime and Law in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1978), t. 15, et seq.

<sup>52</sup> GAG, CLICM, Hydref 1861 : *Caernarvon and Denbigh Herald*, 26 Hydref 1861: gweler hefyd Llyfr Archeb Llys Chwarter Meirionydd 1842-1872, am y flwyddyn 1861 (GAG, Dolgellau).

Thomas Williams, clywodd y Llys ei fod wedi mynd i siop yn Llanfrothen gan ddweud wrth y siopwraig ei fod wedi ei anfon gan David Jones, Asiant Chwarel Croesor, a oedd yn gwsmer rheolaidd a dibynadwy. Ar sail y celwydd hwn, a thrwy gyflwyno llythyr ffug a'r hyn a ymddangosai fel llofnod David Jones arno (a oedd yn ffug), cafodd 'fenthyciad' o bum punt, pum swllt a chwe cheiniog. Pa fodd bynnag, maes o law codwyd amheuron ynglŷn a'i gywirdeb a chafodd Thomas Williams ei arestio gan yr heddlu ym Maentwrog. Yn yr achos cyflwynwyd tystiolaeth ei fod wedi perswadio siopwr ym Meddgelert i ysgrifennu'r llythyr, a honnai hwnnw iddo fethu a synhwyro cymhellion Williams pan ofynnodd iddo ysgrifennu'r llythyr. Datgelwyd hefyd fod Williams wedi ceisio'r un trie mewn siop yn Ffestiniog. Fe'i dedfrydwyd i ddeunaw mis o garchar. Ceryddwyd awdur y llythyr gan y Cadeirydd W. W. E. Wynne, a gwrthodwyd a chaniatau ei gais am ei gostau a'i dreuliau er mwyn bod yn bresennol yn y Llys.<sup>53</sup>

Achos ychydig yn wahanol oedd achos Joshua Wigley a dwyllodd dafarnwr y Pengwern Arms yn Ffestiniog drwy ei berswadio i roddi lloches a lluniaeth iddo, a hynny ar sail ei honiad celwyddog bod ei frawd yn ei ddilyn i'r gwesty ac yn cyrraedd y diwrnod canlynol gydag arian i dalu'r tafarnwr. Ar 61 gadael heb dalu fe'i harestiwyd gan yr heddlu. Dedfryd y Llys oedd pedwar mis o garchar gyda llafur caled, a hynny oherwydd bod y diffynnydd wedi cyflawni troseddau tebyg yn y gorffennol.<sup>54</sup>

Yr oedd twyllo trwy ddefnyddio arian ffug yn weithgaredd cyson ym Meirionydd yn 61 cofnodion y Llys Chwarter. Ceir adroddiad llawn o achos Hugh Jones a brynodd geffyl gan John Roberts yn Ffair Dinas Mawddwy trwy ddefnyddio papur pum punt a oedd yn ffug, a gyda'r pennawd "Bank of Engraving" arno. Natur ei amddiffyniad oedd iddo fynnu nad oedd yn anonest, a'i fod wedi derbyn yr arian yn ddiarwybod gan rywun arall mewn ffair flaenorol. Yr oedd cwestiwn yn codi ynglŷn a gallu John Roberts i ddarllen, ac felly i sylweddoli natur ffug yr arian. Cafwyd peth trafodaeth gyfreithiol, er nad yw'r cofnodion yn egluro natur y ddadl, ac eithrio

<sup>53</sup> GAG, CLICM, Hydref 1861: *Caernarvon and Denbigh Herald*, 26 Hydref 1861.

<sup>54</sup> GAG, CLICM, Hydref 1861: *Caernarvon and Denbigh Herald*, 26 Hydref 1861.

cyfeiriad at lawlyfr cyfreithiol y Llys, sef *Archbold Criminal Practiced* a hefyd at achos a ystyriwyd er canfod canllaw, sef *R. v Coulson and Rusting*.<sup>56</sup> Aeth yr achos yn erbyn Hugh Jones pan gyflwynodd tyst o'r enw Peters dystiolaeth ei fod wedi gwerthu buwch i'r diffynnydd ar achlysur blaenorol a'i fod wedi derbyn arian ffug ganddo. Ym marn y llys roedd hyn yn fwy na chyd-ddigwyddiad, a dedfrydwyd ef i dri mis o garchar gyda llafur caled.<sup>57</sup>

Y mae rhai ysgolheigion wedi nodi ymddangosiad ffurfiau mwy proffesiynol o droseddu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'i gymharu â'r canrifoedd blaenorol. Enghreifftiau a nodir o hyn yw'r cynnydd mewn troseddau yn ymwneud â thwyll.<sup>58</sup> Gwelwn fod y cofnodion yn cadarnhau y ddamcaniaeth hon, a chawn nifer o'r troseddwy'r hyn yn 'hen lawia' ar y gelfyddyd o dwyllo, a hwythau, mwy na thebyg, wedi troseddu droeon o'r blaen a heb eu dal. Yr oedd eu dulliau o weithredu yn dangos 61 meddwl, bwriad a pharatoi, ac er bod y ffeithiau yn awgrymu rhyw nai'frwydd eithriadol ar ran y dioddefwyr, rhaid yw cofio mai oes anlythrennog, ddi-addysg a llawer llai drwgdybus oedd hwn yn gyffredinol. Yr oedd y gweithredu yma yn feiddgar ac annisgwyl, a hynny sy'n egluro diniweidrwydd y dioddefwr i raddau helaeth. Cymeriad poblogaidd iawn yng ngolwg gohebyddion y wasg oedd y twyllwr, a hanes ei weithredoedd yn creu stori dda yn y papurau newydd bob tro.

<sup>55</sup> Cyhoeddwyd *Archbold Criminal Pleading, Evidence and Practice* yn Llundain am y tro cyntaf yn 1822, a hynny dan olygyddiaeth J.F. Archbold. Erbyn 1862 yr oedd y 15fed argraffiad wedi ei gyhoeddi, a W.N. Welsby oedd y golygydd. Y mae'r gyfrol hon yn parhau fel y testun cydnabyddedig i ymarferwyr cyfreithiol yn y llysoedd troseddol, ac fe'i diwedderir yn flynyddol i gadw cyfrif o'r datblygiadau yn y gyfraith. P.J. Richardson yw'r golygydd bellach.

<sup>56</sup> Credaf mai'r achos a gyfeiriwyd ato oedd *R. v. Henry Coulson and John Rusting* (1850) *The English Reports* Vol. CLXIX Crown Cases II, tt. 386-388. Darganfyddais yn yr adroddiad apêl mai un o'r egwyddorion a gadarnhawyd gan y llys oedd yr angen i'r erlyniad brofi fod y diffynnydd, mewn achos o ddefnyddio achos ffug, yn gwybod fod yr arian a ddefnyddiai yn ffug ac felly fod ganddo'r *mens rea* angenrheidiol, sef ei fod yn ymwybodol o'r twyll a gyflawnai. Dyma'r egwyddor y cyfeiriwyd ato fwy na thebyg yn achos Hugh Jones.

<sup>57</sup> GAG, CLICHM, Gaeaf 1862 : *Caernarvon and Denbigh Herald*, Ionawr 4 1863.

<sup>58</sup> Gweler Michael Weisser, *Crime and Punishment in Early Modern Europe* (Llundain, 1979), tt. 151, et seq.

Cymeriad arall go boblogaidd y cyfnod oedd y potsiar. Mae llawer wedi ei ysgrifennu am y potsiar yn y gymdeithas wledig yn y cyfnod hwn, ei statws arbennig fel heriwr y drefn a'r portread rhamantus ohono fel arwr y werin.<sup>59</sup> Ceir traddodiad o ysgolheictod sydd yn disgrifio potsiera fel enghraifft glasurol o "droseddu cymdeithasol", lie gwelir gwrthdaro rhwng y gyfraith wladol, swyddogol, a gwerthoedd y werin neu'r gyfraith answyddogol, a hyn yn ami yn gysylltiedig ag anffodlonrwydd gwleidyddol.<sup>60</sup> Gyda gweithredu Deddf Potsiera Nos 1844 a Deddf Atal Potsiera 1862, rhoddwyd awdurdod i'r ciperiaid a'r heddlu i ddal ac i archwilio y rhai a amheuid o botsiera. Yn ystod sesiwn Hydref 1861, yn 61 adroddiad y wasg, cafwyd anerchiad gan Gadeirydd y Llys ar y gyfraith yn y maes hwn, a sonnir am benodiad John Jones yn Warcheidwad Afonydd y Sir er Goruchwyllo'r Samwn.<sup>61</sup> Ymddengys afonydd Mawddach ac Wnion yn rheolaidd yn y cofnodion fel afonydd poblogaidd i'r potsiar. Gellir casglu o'r dirwyon a dderbynai'r potsiar fod yr awdurdodau yn gwgu yn fawr ar yr arferion hyn. Ceir cofnodion o ddiffynyddion yn dwyn samwn o'r afonydd ac yn derbyn dirwyon o bum punt a mwy gan y Llys.<sup>62</sup> Rhaid yw cofio mai rhyw wyth bunt yr hanner blwyddyn oedd cyflogau gweision ffermydd yn yr adeg hwn.<sup>63</sup> Yr oedd yn rhaid i'r potsiar dalu'n ddrud am ei swper pan gawsai ei ddal. Y mae cofnod o ddau botsiar a ddaliwyd yn

<sup>59</sup> Gweler, er enghraifft, D.J.V. Jones, *Crime, Protest, Community, & etc.*, op. cit., tt. 69-74; Peter R. Roberts, "The Gentry and the Land in Eighteenth Century Merioneth", (1964) IV *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*, tt. 324-339; A. H. Manchester, *Modern Legal History* (Llundain, 1980), tt. 189 et seq.

<sup>60</sup> Er enghraifft, Eric J. Hobsbawm, "Conference Report: Distinctions between Socio-Political and other forms of Crime" (1972) 25 *Bulletin of the Society for the Study of Labour History*, tt. 5-21.

<sup>61</sup> *Caernarvon and Denbigh Herald*, 26 Hydref 1861.

<sup>62</sup> GAG, CLICHM, Pasg 1860.

<sup>63</sup> Darllenaais atgofion Daniel Evans, Tuhwntirafon, Rhoslan yn Eifionydd mewn erthygl yn *Yr Herald Gymraeg a'r Genedl* yn dyddio o 1934 - nid oes gennyf sicrwydd o'r union ddyddiad. Cofiai ei dad yn gweithio fel gwas fferm am dair punt yr hanner blwyddyn. Ganwyd Daniel Evans tua 1845, ac felly gellir yn rhesymol gasglu ei fod yn sôn am gyflogau gweithwyr tua chwedegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r dyfyniad hwn o'r erthygl yn ddiogon diddorol hefyd, "Un o bechodau mwyaf yr oes honno oedd saethu ffesant, meddai Mr Evans, ac fe enwodd rai o'i hen gyfeillion a gafodd chwe mis o garchar gyda llafur caled am saethu ffesant. Edrychid ar botsio yn bechod anfaddeuol".



dwyn samwn o'r afon Wnion, un ohonynt, John Jones, yn cael dirwy o wyth bunt a deuddeg swllt, a'r Hall, Hugh Richards, yn cael dirwy o ddeg punt a deuddeg swllt.<sup>64</sup> Yn achos Robert Roberts, cafodd ei erlyn am dresmasu gyda'r bwriad o ddal pysgod a derbyniodd ddirwy o ddwy bunt. Mewn nifer o'r achosion ymddengys mai'r achwynwr yw Griffith Williams, 'Gent', a oedd fwy na thebyg yn un o'r ciperiaid â gofal dros yr afonydd. Yr oedd yr heddlu hefyd yn cyfrannu tuag at y frwydr yn erbyn y potsiar, megis yn achos Evan Ellis a gafwyd yn euog o dresmasu ar stâd y Rhiwlas gyda'r bwriad o ddal ffesantod. Fe'i harestiwyd gan y Cwnstabl John Jones gyda dau ffesant a dryll yn ei feddiant. Cafodd ddirwy o ddeugain swllt, atafaelwyd y ffesantod a'r dryll, a gorchmynnwyd iddo dalu pymtheg swllt a chwe cheiniog i'r heddwad a'i daliodd.<sup>65</sup>

Troseddau eraill y gellir yn briodol eu gosod o dan y pennawd hwn yw troseddau o ddifrodi eiddo. Gyda nifer ohonynt yn deillio o fandaliaeth, meddwdod ac ymladd ar y strydoedd, amrywiai'r ddedfryd o ddirwy ynghyd â iawndal i gyfnod o garchar.<sup>66</sup> Anfonwyd diffynnydd o'r enw White i garchar am chwe wythnos gyda llafur caled am dorri dau baen o wydr gwerth tri swllt.<sup>67</sup> Un o'r ffactorau pennaf a fyddai'n dylanwadu ar hyd y ddedfryd oedd gwerth yr eiddo. Yn ogystal, ystyrid difrodi'r eiddo yn fwriadol, yn hytrach nag yn ddi-hid, fel nodwedd a fyddai'n difrifoli'r drosedd. Ddedfrydwyd dau ddiffynnydd i ddeufis o garchar gyda llafur caled am ddifrodi'n fwriadol ddeuddeg o ffenestri yn Wycrcws y Bala yn 1864.<sup>68</sup> Y mae bias protest a gwrthryfela yn erbyn y drefn yn gysylltiedig â nifer o'r troseddau lie y difrodir eiddo yn fwriadol, megis yn achos John Wood a losgodd ei ddillad tra yn wycrcws y Bala.<sup>69</sup>

Ffurf arall ar ddifrodi eiddo a gosbid oedd cam-drin anifeiliaid. Mewn cymdeithas a oedd yn dibynnu llawer ar lwyddiant amaethyddiaeth ac yn ystyried anifeiliaid fel y prif asedau economaidd, nid rhyfedd fod achosion o gam-drin gwartheg yn ymddangos gerbron y Llys. Yn achos un diffynnydd a gosbwyd am gam-drin llo, ac yntau yn hwsmon, cafodd

<sup>64</sup> GAG, CLICM Pasg 1861.

<sup>65</sup> GAG, CLICM, Haf 1863.

<sup>66</sup> GAG, CLICM, Gaeaf 1860; Pasg 1860; Haf 1860.

<sup>67</sup> GAG, CLICM, Pasg 1862.

<sup>68</sup> GAG, CLICM Haf 1864.

<sup>69</sup> GAG, CLICM, Gaeaf 1860.

ddirwy o dri swllt a chwe cheiniog.<sup>70</sup> Yr oedd yr angen i barchu eiddo yn un o'r gwerthoedd pwysicaf a gynhelid yng ngweithrediadau'r Llys Chwarter yn y cyfnod hwn.

Y thema amlwg a ddaw o'r cofnodion yw tloidi'r diffynnyddion. Ni cheir cofnod o wr cyfoethog neu aelod o'r 'dosbarth canol'<sup>71</sup> yn ymddangos gerbron y Llys wedi ei gyhuddo o'r math yma o drosedd. Er bod yr awdurdodau yn awyddus i bwysleisio mai bai y mewnfudwyr oedd cynifer O droseddau 'lladrad', ni ellir cadarnhau yr honiad hwn. Ceir tystiolaeth fod y Cymry brodorol yn lladrata oddi wrth y mewnfudwyr, megis yn achos Robert Roberts a ddyfarnwyd yn euog o ladrata oddi wrth weithwyr a oedd yn adeiladu'r rheilffordd yn Aberdyfi.<sup>72</sup> Yn ddi-os roedd troseddau o'r math yma yn destun cosbi llym, a phrin iawn, os o gwbl, y ceid diffynnydd yn osgoi dedfryd o garchar, waeth pa mor fân â di-werth oedd y peth a gymerwyd. Mae'r ffaith fod y pethau a gymerid mor ddi-werth yn nhermau cyfoes yn adrodd cyfrolau am yr amgylchiadau economaidd a chymdeithasol ar y pryd. Ymysg y pethau cyffredin a ddygid oedd dillad, offer megis tegellau a sosbannau, carpedi a hyd yn oed gerrig mân a thywod. Mae hi'n bwysig nodi mai aelodau o'r dosbarthiadau isaf oedd y dioddefwyr yn bennaf, ffermwyr bach, siopwyr neu weithwyr, a hynny oherwydd eu bod yn fwy agored i ladrad a thwyll. Yr oedd hi'n haws i'r troseddwr gymeryd mantais ar ei gydweithwyr neu rai yr oedd yn ymwneud â hwy yn feunyddiol, na'r bonheddwyr a drigai yn eu plastai castellog. Yr hyn sydd hefyd yn ddiddorol yw'r ffaith fod aelodau o'r haenau yma o'r gymdeithas yn barod i erlyn y fath droseddau a dod â'r drwgweithredwyr o flaen y llysoedd.<sup>73</sup> Mae'r cofnodion yn dueddol o gadarnhau parodrwydd y dioddefwyr hyn i droi at y gyfundrefn swyddogol i gael cyfiawnder, yn hytrach na gweithredu trwy dduiliau *vigilante*.

Enghraifft brin o ladrad yn arwain at ddirwy yn hytrach na charchariad oedd achos Edward Owen o'r Bala a gymerodd faw anifeiliaid ac ysbwriel

<sup>70</sup> GAG, CLICM Hydref 1862.

<sup>71</sup> Mentraf ddefnyddio'r ymadrodd yn y cyd-destun hwn wrth gyfeirio at rai megis y rhydd-ddeiliaid, y siopwyr cefnog a'r gwŷr proffesiynol trefol.

<sup>72</sup> GAG, CLICM, Gaeaf 1864.

<sup>73</sup> Gweler D Phillips, *Crime and Authority in Victorian England* (Llundain, 1977), tt. 125-126; nodir yma mai aelodau'r dosbarth gweithiol oedd y nifer helaethaf o'r erlynwyr ac achwynwyr yng nghanolbarth Lloegr rhwng 1836 a 1851.

oddi ar y briffordd, 'eiddo' John Morris, Clerc i Fwrdd Lleol y Bala. Y ddirwy oedd dau swllt a chwe cheiniog. Yn ogystal, gorchmynnwyd iddo dalu punt a chwe cheiniog i'r hysbysydd.<sup>74</sup> Yr oedd hi'n weithgaredd proffidiol iawn i ddwyn tystiolaeth yn erbyn eich cymydog yn Llys Chwarter Meirionydd, ffactor a ddylanwadai'n fawr ar barodrydd achwynwyr i erlyn.

### Troseddau Trais

Cywir oedd yr ymadrodd "Gwlad y Mennyg Gwynion"<sup>75</sup> with gyfeirio at Feirionydd y cyfnod hwn, ac nid oedd troseddau yn ymwneud â thrais difrifol yn gyffredin. Yr oedd llofruddiaethau yn ddigwyddiadau prin, a thueddai'r fath droseddau i ennill eu plwyf yn chwedloniaeth cefn gwlad, fel y sonnid amdanynt am flynyddoedd wedyn.<sup>76</sup> With gwrs, materion i'r Frawdlys yn unig oedd y prif droseddau, ac eto y mae adroddiadau a chofnodion y Llys Chwarter yn frith o achosion diddorol a dadlennol. Tuedda ysgolheigion i ddosbarthu'r troseddau sy'n ymwneud â thrais i dair categori; trais o fewn teuluoedd, gwrthdaro rhwng cymdogion, a thrais tuag at swyddogion y wladwriaeth (plismyn, ciperiaid, goruchwyliwr y tlodion, mysg eraill).<sup>77</sup> Dengys y dystiolaeth yma fod y rhaniad hwn, er efallai yn gyffredinol, yn agos i'w le.

With ystyried trais o fewn teuluoedd, gwelwn mai'r teip amlycaf oedd trais a gyflawnai gwŷr yn erbyn eu gwragedd. Dirwywyd Cadwaladr Roberts am ymosod ar ei wraig Janette, gan orfod talu tair punt, naw swllt, a thair ceiniog i'r Llys, a phunt, deg swllt a naw ceiniog i'r hysbysydd.<sup>78</sup> Yr

<sup>74</sup> GAG, CLICM Gaeaf 1861.

<sup>75</sup> Gweler Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1986), t. 247. Yr oedd hi'n draddodiad i gyflwyno menig gwynion i farnwyr pan na cheid achosion i'w profi, ac felly pan oedd y Sir yn ymddangosiadol yn ddi-drosedd.

<sup>76</sup> Gweler hanes llofruddiaeth a gyflawnwyd gan yr "Hwnrw Mawr" yn E. Vaughan Jones, "A Merioneth Murder of 1812", (1969) VI *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*; hefyd H.J. Owen, "The Common Gaols of Merioneth during the Eighteenth and Nineteenth Century", (1957) III *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionydd*.

<sup>77</sup> D.J.V. Jones, op cit, t. 5, 61-nodyn 30.

<sup>78</sup> GAG, CLICM, Hydref 1860.

oedd methu â thalu'r ddirwy yn golygu y byddai yn treulio deufis yn y carchar. Yn achos William Hughes, a gurodd ei wraig Margaret, deufis yn y carchar gyda llafur caled oedd y ddedfryd yn syth.<sup>79</sup> Un o'r ystyriaethau amlwg i'r Llys with benderfynu'r ddedfryd briodol oedd y niwed a achoswyd i'r dioddefwr. Ceir hefyd dystiolaeth o ddynion yn ymosod ar wragedd heb fod o fewn y cyd-destun priodasol. Ymosododd John Davies, a oedd yn gigydd, ar Ellen Williams, a chafodd ddirwy o ddeg punt ac unarddeg swllt, gyda chwe mis o garchar pe methai dalu'r ddirwy.<sup>80</sup> Diddorol hefyd yw'r cofnodion o ferched yn cael eu herlyn am ymosod ar ddynion. Ceir cofnod o Ellin Jones<sup>81</sup> yn derbyn dirwy o bum swllt am ymosod ar Evan Jones.<sup>82</sup> Nid yw'r cofnod yn cadarnhau ai pâr priod neu gymdogion oeddynt. Mae'n ddiddorol sylwi pa mor isel yw'r ddirwy o'i gymharu â'r dirwyon a dderbyniai'r dynion am ymosod ar ferched. Gellir casglu mai natur y niwed a achoswyd sydd i gyfrif am hyn, er anodd yw peidio ag awgrymu fod agweddau cymdeithasol a'r syniad fod gwroldeb gwrywaidd i'w ddisgwyl yn dylanwadu ar y dyfarniad. Yr hyn sydd yn hynod yw'r ffaith fod y gwryw yn barod i ddwyn achwyniad gerbron y Llys yn y lie cyntaf, ac yntau'n siŵr o ennyn gwawd ei gyfoedion a gweddill cymdeithas o ganlyniad. Unwaith eto, y mae parodrwydd dioddefwyr i droi at y gyfundrefn i warchod eu buddiannau, hyd yn oed o fewn cyd-destun priodasol, yn nodwedd amlwg yng nghofnodion y Llys.

Ffurf mwy difrifol ar ymosodiad, a hwnnw 'rhwng cymdogion', oedd y drosedd a gyflawnwyd gan Robert Roberts, ffermwr deg ar hugain oed, ar Mary Roberts, merch ddeunaw oed, a hynny gyda'r bwriad o'i rheibio yn rhywiol.<sup>83</sup> Digwyddodd y drosedd ar lwybr yn arwain o Ffestiniog i Drawsfynydd am ddeg o'r gloch yr hwyr, ac yno y bu ysgarmes rhwng y diffynnydd a'r ferch. Sylwadau'r wasg oedd nad oedd y manylion yn weddus i'w hailadrodd a'i bod yn wyrth ei bod wedi llwyddo i ddianc o gwbl.<sup>84</sup> Dihangodd i ddiogelwch cartref ei chyflogwr, Mr Pierce Jones, Cynfal Bach, a rhoddodd hwnnw wybod i'r heddlu. Maes o law fe

<sup>79</sup> GAG, CLICM, Hydref 1863.

<sup>80</sup> GAG, CLICM, Haf 1863.

<sup>81</sup> Dyma'r sillafiad yn y cofnodion.

<sup>82</sup> GAG, CLICM Gaeaf 1860.

<sup>83</sup> GAG, CLICM, Hydref 1864.

<sup>84</sup> *Caernarvon and Denbigh Herald*, 29 Hydref 1864.

arestiwyd Robert Roberts. Yn ystod y prawf, cyflwynodd y meddyg, Dr J. Thomas Jones, dystiolaeth arbenigol fod yr anafiadau a ddiodeffodd Mary Roberts yn gyson â'i disgrifiad o'r digwyddiad. Condemniodd y Cadeirydd, R. M. Richards, y weithred, a dedfrydwyd Robert Roberts i ddwy flynedd o garchar gyda llafur caled. Mae'r achos yn ddiddorol o gofio sylwadau David Jones, a'i fam fod y math yma o drosedd yn gyffredin ym Meirionydd yn y cyfnod hwn, sef trosedd a berthyn i gymdeithas wledig, ac yn nodweddiadol o ymosodiadau ar ferched ifanc a morynion mewn mannau unig neu ar hyd llwybrau tywyll wrth iddynt ddychwelyd adref o'u gwaith ar y ffermydd.<sup>85</sup> Gellir casglu mai'r hyn a geir yma yw troseddu bwriadol, gyda'r diffynnydd yn ymwybodol o'r ddiodeffwraig ddiamddiffyn mewn sefyllfa lie y byddai'n anodd iddi wrthsefyll yr ymosodiad, a diffyg tystion gerllaw i ymyrryd. Dyma droseddu a enynnai ddirmygaeth yr holl gymdeithas, ac nid oedd y gwrthdaro achlysurol rhwng buddiannau'r gwahanol haenau cymdeithasol mor amlwg pan gosbid troseddwr o'r math yma.

Ceir yn y cofnodion nifer o achosion yn ymwneud ag ymladd rhwng dynion yng nghyd-destun cythrwfl wedi gor-yfed, neu ymladd rhwng cardotwyr.<sup>86</sup> Byddai'r meddwyn yn ail ymddangos yn rheolaidd gerbron y Llys, a phatrwm ailadroddus o ymladd a chreu helynt oedd y nodwedd yn fynych. Y gosb fel arfer oedd dirwy o rai sylltau. Pe methid â thalu'r ddirwy gosodid y troseddwr mewn cyffion cyhoeddus a geid yn y prif drefi, a hynny fel arfer am ryw gyfnod o chwe awr. Prinhau y mae'r cyfeiriad am y math hwn o gosbi wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, ac erbyn 1862 ni cheid rhagor o sôn am y cyffion. Diddorol hefyd yw sylwi ar alwedigaeth rhai o'r troseddwr, yn enwedig y rhai a oedd hefyd yn euog o feddwod. Ceir cyfeiriadau at ffermwyr, teiliwr a hwsmon yn y cofnodion, dynion â rhywfaint o statws mewn cymdeithas, sydd yn cadarnhau i ryw raddau y theori fod rhai mathau o droseddau, gan gynnwys ymladd lie yr oedd gor-yfed yn elfen ohono, yn nodi datblygiad troseddu yn gysylltiedig â llewyrch yn y cyfnod hwn.<sup>87</sup> Roedd dosbarth o ddyinion yn ymddangos yn y gymdeithas a chanddynt arian i'w wario yn llymeitian yn y tafarndai, a'r gor-yfed hwnnw yn esgor ar ymddygiad afreolus o bryd i'w gilydd. Er hyn,

<sup>85</sup> Gweler D.J.V. Jones, *Crime in Nineteenth Century Wales*, t. 79.

<sup>86</sup> Ceir adroddiadau o ddigwyddiadau fel hyn yn GAG, CLICM, Gaeaf 1860, Pasg 1860 a Haf 1860.

<sup>87</sup> Gweler, D.J.V. Jones, *op.cit.*, t. 4.

cadarnhau wna'r cofnodion mai tlodion a chardotwyr oedd y troseddwyr amlycaf, nifer ohonynt a chyfenwau yn awgrymu eu bod wedi mewnfudo o Loegr a'r Iwerddon.

Bu'r i'r tyfiant sydyn ym mhoblogaeth Ffestiniog a'r mewnlifiad o ddieithriaid i'r ardal arwain at wrthdaro a thrais rhwng y brodorion a'r mewnfudwyr. Gwelir hyn ar ei amlycaf yng nghyswllt mewnfudwyr o Loegr ac Iwerddon nad oeddynt yn medru ymdoddi yn syth i'r gymdeithas frodorol fel y mewnfudwyr o'r ardaloedd Cymraeg. Yr enghraifft orau o hyn yn y cofnodion yw'r achos yn erbyn chwe unigolyn yn ystod cynulliad Gaeaf 1862 ar gyhuddiad o annog terfysg.<sup>88</sup> Yn 61 adroddiadau'r wasg, craidd yr anghydfod oedd y drwgdeimlad a fodolai rhwng y brodorion Cymreig a'r mewnfudwyr o Loegr a'r Iwerddon. Dechreuodd dadl yn nhafarn y 'Baltic' ar nos Sadwrn ym Mlaenau Ffestiniog rhwng Gwyddel o'r enw Stevens, a weithiai fel chwarelwr ac a letyai yng nghartref Henry ac Elizabeth Austin, a rhai o'r Cymry oedd yno. Yn 61 yr adroddiadau yr oedd Stevens wedi gweiddi yn ei ddiod, "the bloody Welsh", a'r Cymry hwythau wedi ymateb drwy weiddi arno yntau, "yr hen Wyddel diawl". Dilynwyd Stevens i'w gartref gan rai o ddynion y dref, gan gynnwys William Roberts, George Hughes, John Parry, John Jones, Owen Morris a Robert Williams, a bu ymladd rhyngddynt a rhai o'r Saeson a'r Gwyddelod a oedd yn byw gyda Stevens. Yn 61 tystiolaeth un ohonynt, Grenville Brown, rhedodd hwnnw nerth ei draed tua'r mynydd ac arhosodd yno tan y bore; yr unig fodd y medrai dreulio'i amser yn gymharol bleserus tra ar y mynydd oedd drwy wyllo'r digwyddiadau i lawr yn y dref. Dechreuwyd taflu cerrig tuag at ffenestri'r ty, ac ymosododd Richard Williams ar Elizabeth Austin, gan ei llusgo gerfydd ei gwallt. Casglodd tyrfa i wyllo'r digwyddiad, ac yn 61 y wasg yr oedd tua chant a hanner i ddau gant o bobl yn y dorf. Yn 61 yr adroddiad, roedd gwraig o'r enw Catherine Griffiths yn annog yr ymladd, a gyda chylllell yn ei Haw heriai'r dynion gan siarsio, os oedd gan un ohonynt galon Cymro byddai yn cymryd y gyllell a'i ddefnyddio yn erbyn yr estroniaid. Llwyddodd yr heddlu i adfer trefn, ac yn sgil eu hymholiadau fe gyhuddwyd y pum dyn a Catherine Griffiths o'r drosedd.

<sup>88</sup> GAG CLICM Gaeaf 1862 : ceir adroddiad pur fanwl o'r digwyddiad yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, 4 Ionawr 1862.

Yn ystod y gwrandawriad yn y Llys, pwysleisiwyd ar ran y diffynyddion mai y Gwyddel oedd wedi ysgogi'r ymladd, ac nad oedd tystiolaeth glir yn erbyn y diffynyddion oherwydd ei bod mor dywyll ar adeg y digwyddiad. Yn cynrychioli'r diffynyddion yn yr achos hwn oedd Mr Griffith J Williams, sydd yn ymddangos yn rheolaidd yn adroddiadau'r wasg fel cyfreithiwr erlyn neu ar ran diffynyddion. Cofnodir Humphrey Jones fel cyfreithiwr ar ran yr erlyniad. Dyfarnwyd y saith yn euog, a gofynnodd y rheithgor i'r fainc fod yn drugarog wrthynt gan mai dyma oedd y tro cyntaf iddynt droseddu. Dedfrydwyd pedwar i ddeufis o garchar gyda llafur caled, gyda thri arall a oedd yn llai blaenllaw i fis o garchar gyda llafur caled.

Wrth ddedfrydu'r diffynyddion, diddorol yw nodi sylwadau'r Cadeirydd R. M. Richards ar y digwyddiad, gan ei ddisgrifio fel, "...a *dangerous disturbance*". Yr oedd y gwrthdaro rhwng y Cymry a'r mewnfudwyr yn amlwg yn peri gofid i'r Cadeirydd. Pwysleisiodd agwedd diduedd y Llys ac nad oedd unrhyw ddrwgdeimlad cyffredinol tuag at y gweithwyr o Loegr a'r Iwerddon wrth iddo ddatgan: "...a *Merionethshire jury cared not in the least whether the prisoners who appeared before them were English or Irish, or Scotch.* "

Yn anorfod, yr oedd y gwasgedd economaidd yn esgor ar wrthdaro rhwng y mewnfudwyr a'r brodorion. Er efallai nad oedd y tensiynau hyn yn effeithio cymaint ar y mân rhydd-ddeiliaid a ffurfiai reithgorau'r Llys Chwarter, yn yr ardaloedd diwydiannol gyda phroblemau gorboblogi, diffyg glanweithdra a chlefydau, byddai'r anesmwythdod a oedd yn berwi o dan yr wyneb yn ffrwydro o bryd i'w gilydd a digwyddiad o'r math yma yn adwaith i'r sefyllfa.

### Troseddau yn erbyn yr Heddlu

Digwyddiad a gafodd effaith sylweddol ar y modd y gweinyddid y gyfundrefn yn ystod y cyfnod hwn oedd cyflwyno yr heddlu i'r sir yn dilyn Deddf Heddlu 1856, a sicrhodd fod pob sir bellach â'i gwasanaeth heddlu sefydlog. Mae'r cyfnod yma yn ddiddorol oherwydd ceir arwyddion o ymateb y gymdeithas i'r datblygiad hwn, ac y mae'r cofnodion yn tystio rhywfaint i'r anawsterau a wynebai'r heddlu ar y dechrau.<sup>89</sup> Yn sgil

<sup>89</sup> Y mae hynt a helynt sefydlu'r Heddlu ym Meirionydd wedi derbyn ymdriniaeth fanwl gan H. Kenneth Birch, *The Merioneth Police 1856-1950*, (traethawd

sefydlu'r heddlu, gwelwyd ymddangosiad troseddu yn gysylltiedig ag ymosodiadau amynt. Tystia'r cofnodion mai Cymry oedd yr heddlu a fyddai'n wrthrych yr ymosodiadau, a'r rheiny o radd cwnstabl fel arfer. Dim ond ddwywaith yr ymddengys enw y Rhingyll Hugh Williams o Gorwen yn y cofnodion mewn cysylltiad ag ymosodiad arno, ac unwaith ceir yr Arolygydd Owen Hughes o'r Bala yn dwyn achwyniad o ymosodiad arno gerbron y Llys.<sup>90</sup>

Yr oedd swyddogaeth yr heddlu wrth gynnal cyfraith a threfn o fewn y Sir yn ddatblygiad pwysig, er rhaid yw nodi fod y mwyafrif o'r 'informers' yn aelodau o'r gymdeithas, ac yr oedd parodrwydd unigolion i ddwyn achwyniad gerbron y Llys o hyd yn bwysig er llwyddiant unrhyw erlyniad yn y cyfnod hwn. Gwyddai cynheiliaid y drefn pa mor bwysig oedd estyn cefnogaeth i achwynwyr a'u hannog i erlyn drwgweithredwyr; un prawf o hyn yw'r modd y gorchymynna'r llys i'r diffynnydd dalu costau'r achwynwr yn y mwyafrif o achosion, a'r costau hynny yn ami yn uwch na'r ddirwy a osodid. Mewn un achos gerbron y Llys, gorchymynnwyd i ddiffynnydd i dalu dirwy o ddeg swllt am ei drosedd o feddwdod, a hefyd bunt a chwe cheiniog tuag at gostau'r achwynwr.<sup>91</sup>

Mae astudiaethau wedi profi mai o drwch poblogaeth y gweithwyr cyffredin y recriwtwyd yr heddlu newydd, llawer ohonynt heb grefft ac efallai wedi gwasanaethu yn y fyddin, ac yn barod i ymgymryd â gwaith amhoblogaidd am gyflog o un swllt ar bymtheg yr wythnos.<sup>92</sup> O gofio'r adwaith a fu i'r heddlu newydd mewn nifer o'r ardaloedd poblog yn Lloegr, ychydig o dystiolaeth sydd yn y cofnodion i awgrymu fod y gymdeithas ym Meirionydd wedi bod yn filain ei gwrthwynebiad iddynt.

---

ymchwil MA Prifysgol Cymru, 1980). Trafodir yr anawsterau yn fwy cyffredinol gan Carolyn Steedman, *Policing the Victorian Community, The Formation of English Provincial Forces 1856-80*, (Llundain, 1984); R.D. Storch, "The Plague of Blue Locusts; Police Reforms and Popular Resistance in Northern England 1840-57", (1975) XX *International Review of Social History*, tt. 61-90.

<sup>90</sup> GAG, CLICM, Haf 1860; Haf 1861; Hydref 1863.

<sup>91</sup> GAG, CLICM, Haf 1861.

<sup>92</sup> Gweler, er enghraifft, John Styles, "The Emergence of the Police; Explaining Police Reform in Nineteenth Century England", (1987) 27(1) *British Journal of Criminology*, tt. 15-22. W.J. Lowe, "The Lancashire Constabulary 1845-1870: The Social and Occupational Function of a Victorian Police Force", (1983) 4 *Criminal Justice History*, tt. 41-42; H. Kenneth Birch, op. cit., 44-45.



Dim ond wyth cofnod o ymosod o'r math yma a geir yng nghofnodion y Llys yn y cyfnod hwn, a'r mwyafrif ohonynt yn deillio o sefyllfaoedd lie yr oedd yr heddlu yn ymyrryd ag ysgarmesoedd rhwng meddwon. Yng nghyswllt yr Arolygydd Hughes, fe ymosodwyd arno ef pan geisiodd atal ysgarmes yn y *Bull Inn* yn y Bala.<sup>93</sup> Dengys cofnodion y Llys mai dirwyon a wynebai'r troseddwy'r yn y categori yma, gyda'r mwyafrif yn derbyn dirwy o ddwy bunt.

Efallai na ddylid diystyru'r ffaith fod dulliau answyddogol gan yr heddlu hwythau i ddatrys ambell gythrwfl, ac ni ellir hepgor y posibilrwydd fod yr heddlu, o bryd i'w gilydd, yn barod iawn i ddefnyddio bôn braich yn hytrach na dwyn erlyniad swyddogol gerbron y llysoedd. Diddorol hefyd yw nodi'r dystiolaeth sy'n awgrymu nad gweision llywaeth y gyfundrefn oedd yr heddlu o anghenraid ym Meirionydd, a cheir enghraifft ohonynt yn gweithredu'n groes i ddymuniad y pendefigion ychydig cyn cyfnod yr arolwg yma, pan arestiwyd perchennog gwesty yn Nhywyn am feddwod yn 1859. Ymddengys iddo geisio dylanwad yr ynadon lleol, ac yntau'n gyfeillgar â hwy, er mwyn cael ei ryddhau. Bu i'r heddlu lleol ei symud i orsaf Dolgellau er mwyn osgoi ymyrraeth yr ynadon lleol, a oedd o'i blaid, a'u hymgais i'w ryddhau. Yn 61 yr hanes, oherwydd y weithred hon, fe symudwyd rhingyll o'i swydd yn Nhywyn a'i benodi i swydd gyffelyb mewn tref arall o fewn deufis i'r digwyddiad.<sup>94</sup> Yn anorfod, gyda'r ynadon yr oedd y gair olaf.

### Mân-droseddau

Yma ceir trawsdoriad eang o droseddau, rhai ohonynt a nodweddion sy'n golygu y gellid yn briodol fod wedi a'u trafod o dan benawdau lladrad neu drais. Y rheswm dros eu trafod yma yw mai eu prif nodwedd oedd eu bod fel arfer yn ymwneud â rhyw elfen o fethu â chydymffurfio â deddfau rheoleiddio neu ddeddfau gweinyddol. Ceir yn y cofnodion gyfeiriad at droseddau megis caniatáu i gi grwydro ar ffordd dyrpeg, troseddau yn ymwneud â drylliau (megis meddu ar ddryll heb dystysgrif), neu, yng nghyswllt milwr, ffoi o Filisia Meirionydd a Maldwyn.<sup>95</sup> Derbyniodd John

<sup>93</sup> GAG, CLICM, Hydref 1863.

<sup>94</sup> M Gweler H Kenneth Birch, op. cit, tt. 44^5: ceir rhywfaint o'r hanes yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, 29 Hydref 1859.

<sup>95</sup> GAG, CLICM Hydref 1863 & Haf 1864.

Hughes o Lanfor ddirwy o bunt, tri swllt a thair ceiniog ac fe'i gorchymynnwyd i dalu swllt ar bymtheg a naw ceiniog i'r hysbysydd am iddo ddefnyddio ci a dryll er mwyn Uadd ysgyfarnogod a hynny heb drwydded.<sup>96</sup>

Mae cyfeiriadau cyson at fan-droseddau yn gysylltiedig â'r priffyrdd, y mwyaf cyffredin yn ymwneud â gadael rhwystrau megis cert neu wagen ar y ffordd.<sup>97</sup> Cafodd John Evans ddirwy o ddwy bunt, deg swllt a chwe cheiniog am yrru cerbyd ar y ffordd tyrpeg heb gyfrwyau ar ei geffylau.<sup>98</sup> Dyfarnwyd Gwen Richards o Ddolgellau yn euog o osod rhwystr ar y briffordd ar 61 iddi adael cwt ieir ar y Ion rhwng Ffordd yr Eglwys a Lion Street yn y dref, a hynny wedi i William Williams yr Arolygydd Priffyrdd ddod ag achos yn ei herbyn."

Gwelir ymddangosiad cyson y gweision sifil yn y cofnodion hyn, gyda'r Arolygydd Priffyrdd yn ymddangos fel yr achwynwr mewn nifer o'r achosion.<sup>100</sup> Yn ami iawn byddai'r math yma o erlyniadau yn cael eu trafod gan y Llys ar adegau neilltuol, ac felly yng nghynulliad Hydref 1860 ceir Owen Hughes, yr Arolygydd Pwysau a Mesurau, yn erlyn dros ddeg ar hugain o ddiffynyddion a gyflawnodd yr amrywiol droseddau yn ymwneud â phwysau a mesurau.<sup>101</sup> Siopwyr, ffermwyr a masnachwyr o bob lliw a llun oedd y garfan mwyaf niferus o ddiffynyddion a erlynid am droseddau o'r math hwn. Amrywiol eu natur oedd y troseddau a gyflawnid gan dafarnwyr, gan gynnwys bod â mesurau gwirodydd a oedd yn anghywir, gwerthu cwrw ar 61 yr amser cau, agor tafarn i rai ac eithrio teithwyr cyn 2.30 ar brynhawn Sul ac agor tafarn cyn 12.30 ar brynhawn y Groglith i rai ag eithrio teithwyr.<sup>102</sup>

Er pan gyflwynwyd Deddf Crwydreiaeth 1824 ystyriai'r gyfraith y crwydryn fel un diog, anystywallt, a chosbid y rhai a fyddai'n cardota a begera.<sup>103</sup> Yr oedd yr ynadon yn barod iawn i gondemnio'r crwydryn, a gyfrifid fel bygythiad i'r gymdeithas drefnus, ufudd a disgybledig. Yr oedd

<sup>96</sup> GAG, CLICM Gaeaf 1864.

<sup>97</sup> GAG, CLICM Gaeaf 1860 & Haf 1860.

<sup>98</sup> GAG, CLICM Haf 1860.

<sup>99</sup> GAG, CLICM Hydref 1860.

<sup>100</sup> GAG, CLICM Hydref 1860 & Haf 1861.

<sup>101</sup> GAG, CLICM Hydref 1860.

<sup>102</sup> GAG, CLICM Haf 1860; Gaeaf 1861; Gaeaf 1863.

<sup>103</sup> Gweler D.J.V. Jones, op. cit, t. 198.

gweithredu yn erbyn y crwydryn yn hanfodol i gadarnhau ac atgyfnerthu'r *status quo*. Er mai dirwy fyddai'r gosb arferol am y fath droseddu, ceir sawl enghraifft o gardotwyr yn cael eu herlyn a'u dedfrydu i garchar am fis neu ragor, a hynny, with gwrs, gan nad oedd unrhyw ffurf arall ar gosb yn briodol a hwythau yn rhy dlawd i dalu'r ddirwy.<sup>104</sup> Yr oedd nifer o'r rhai a gosbwyd yn rhai a oedd wedi ffoi o ddinasoedd Lloegr ac o Iwerddon, er bod rhai hefyd yn frodorion a barnu o'u cyfenwau. Yn ami byddai'r crwydriaid hyn yn ail-droseddu, a gwelir eu henwau yn ymddangos dro ar 61 tro yn y cofnodion.<sup>105</sup> Y crwydryn oedd cocyn-hitio'r gymdeithas. Ar ei ysgwyddau ef y gosodid y bai am felltithion bywyd, ac yr oedd yn darged hawdd i'w feirniadu gan gynheiliaid y drefn.

Nid yn unig y crwydryn a erlynid yn y Llys Chwarter am fethu â chydymffurfio â rheolau gweinyddu a chadw trefn y gymdeithas. Yn ddiddorol, ceir yn y cofnodion dystiolaeth fod swyddogion y tollau priffyrdd yn cael eu herlyn a'u dirwyo am fynnu tâl gan deithwyr nad oedd raid iddynt dalu toll oherwydd rhesymau oedd yn eu heithrio, megis bod eu wagenni at ddefnydd amaethyddol.<sup>106</sup> Ceir cofnod o achos Margaret Hughes, Crop Street, Cynwyd, a oedd yn swyddog tollau, ac a ddirwywyd am godi toll ar Thomas Ashton a wasanaethai fel bwltler ym Mhlas Isa Corwen, ac yntau ar ei ffordd i wasanaeth yn eglwys y plwyf.<sup>107</sup> Dyfarnwyd mewn achos arall nad oedd hi'n briodol i Henry Parry dalu toll ac yntau yn swyddog ym Milisia Brenhinol Meirionydd.<sup>108</sup>

Yr hyn sydd yn hynod am y troseddau yw'r modd y mae'r mân-swyddogion, a oedd yn dibynnu ar gefnogaeth ac awdurdodaeth y wladwriaeth a'r sefydliad i weithredu yn effeithiol, yn cael eu herlyn a'u cosbi gan y sefydliad hwnnw pan fyddant yn manteisio ar eu hawdurdod ac yn gweithredu yn groes i'r ddeddf. Mae hyn, o bosibl, yn rhyw arwydd o'r ffaith nad oedd y gyfundrefn yn hollol fympwyol ei hagwedd tuag at gynnal y gyfraith, a bod hyd yn oed swyddogion a wasanaethai'r drefn yn cael eu herlyn yn y llysoedd yn eu tro. Rhaid hefyd edrych ar y cyd-destun hanesyddol, ac wrth gofio mai ond ugain mlynedd yn gynharach y

<sup>104</sup> GAG, CLICHM, Gaeaf 1860.

<sup>105</sup> GAG, CLICHM, Haf 1864; Hydref 1864 - ceir cyfeiriad at James Davies yn ail ymddangos o flaen y Llys am fegera.

<sup>106</sup> GAG, CLICHM Pasg 1863; Hydref 1863; Hydref 1861.

<sup>107</sup> GAG, CLICHM Pasg 1863.

<sup>108</sup> GAG, CLICHM Hydref 1861.

gwelwyd y protestio ffyrnig a gofir fel helyntion Rebecca, gellir deall awydd yr awdurdodau i ymddangos yn barod i gosbi camddefnydd o'r tollbyrth. Nid cyd-ddigwyddiad chwaith yw'r ffaith mai ffermwyr ac aelodau o'r dosbarth canol oedd yr achwynwyr yn yr achosion hyn, a hynny yn gyson â'r dystiolaeth mai o gyfeiriad aelodau o'r dosbarth hwn y cafwyd yr arweiniad i'r protestio mwyaf yn yr anghydfod rhyw ugain mlynedd ynghynt.<sup>109</sup> Yn sicr, yr oedd camreoli'r tollbyrth yn fater sensitif o hyd yn y gymdeithas wledig yn y cyfnod hwn.

Gellir casglu fod y troseddau a berthyn o dan y pennawd hwn yn llawer mwy amrywiol na'r rheiny o dan y penawdau blaenorol. Yr oedd y nifer o fân-reolau yn creu amryw o fân-droseddau pe methid a chydymffurfio â hwy. Hanfod troseddau fel hyn yw nad oes fel arfer elfen amlwg o feddwl-euog, boed yn dwyll neu fwriad yn gysylltiedig â hwy.<sup>110</sup> Mae euogrywydd moesol y drwgweithredwr yn llai, a hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ddedfryd a'r gosb a roddid. Yr hyn sydd yn ddiddorol yw fod trawsdoriad eang o aelodau'r gymdeithas yn cael eu herlyn a'u cosbi am fethu â chydymffurfio â'r amryw ddeddfau a gyflwynwyd i reoleiddio'r gymdeithas. Yn wir, aelodau o'r dosbarth canol, y masnachwyr, y tafarnwyr a'r swyddogion tollau yw'r diffynyddion amlycaf yn y categori **hwn**. Maent felly yn wahanol iawn eu natur a'u hamgylchiadau i'r troseddau trais a lladrad, ac yn ffrwyth y cynnydd yn ymyrraeth y wladwriaeth ym mywydau'r bobl yn ystod y ganrif.

### Casgliadau

Yn sicr, mae'r dystiolaeth a geir mewn cofnodion megis y rhain yn ffynhonnell wirioneddol hanfodol i'r hanesydd cyfreithiol a chymdeithasol. Mae llawnder a chyfoeth yr wybodaeth yn golygu nad mater hawdd yw ceisio harnessu'r cyfan a chanfod casgliadau cyffredinol. Yr oedd cymaint o ffactorau cymhleth yn dylanwadu ar natur, cymeriad ac amrywiaeth y troseddau, ac ar agweddau'r Llys wrth bennu cosb. Ceir yr argraff fod y

<sup>109</sup> Gweler un ffynhonnell ardderchog, ymysg llawer, sef D.J.V. Jones *Rebecca's Children, A Study of Rural Society, Crime and Protest* (Rhydychen, 1989).

<sup>110</sup> Yr hyn a eilw'r cyfreithiwr yn *mens rea*. Dangosodd Blackstone y gwahaniaeth rhwng troseddau *mala prohibita*, y troseddau rheoleiddio heb iddynt yr euogrywydd moesol, a'r troseddau *mala in se*, sef y troseddau mwyaf difrifol; gweler A.H Manchester, op. cit, n. 58.

Llys Chwarter yn llys prysur iawn â'i waith yn amrywio o droseddau eithaf difrifol eu natur, i droseddau mwy cyffredin.

Mae yma gofnodion o droseddau sy'n nodweddiadol o batrwm troseddu cyffredinol y cyfnod; troseddu sydd yn adwaith i ddirwasgiad economaidd ynghyd â'r datblygiadau yn sgil y newyn yn Iwerddon, â'r symudiadau yn nifer helaeth o'r boblogaeth yn gwaethygu'r tlodi a'r ansefydlogrwydd, gan fwydo'r tensiwn o fewn y gymdeithas. Y troseddau mwyaf cyson eu hymddangosiad yn y cofnodion yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â lladrata neu feddwod. Yr hyn sydd yn drawiadol yw pa mor gymharol ddi-werth yn 61 safonau ein hoes ni oedd y pethau a ddygid, yn garpedi, offerynnau coginio a dillad, pethau a oedd yn amlwg yn werthfawr yn y cyfnod hwn; digon gwerthfawr fel y byddai'r lleidr yn fodlon wynebu cyfnod yn y carchar pe cawsai ei ddal. Yn ddi-os, mae'r troseddau amlycaf yn symptomau o'r cyni economaidd.

Ceir nifer helaeth o droseddau yn ymwneud â mân-reolau, sydd yn awgrymu parodrwydd y wladwriaeth i ymyrryd fwyfwy ym mywydau'r bobl, ac ymddangosiad nifer o swyddogion i gynnal y drefn yn brawf o'r cynnydd yng ngoruchwyliaeth y gyfundrefn. Y datblygiad mwyaf allweddol yn yr ymyrraeth hwn oedd dyfodiad yr heddlu proffesiynol. Daethant yn ganolog yn y broses o erlyn troseddau, a gwelir hyn yn yr effaith a gawsant ar y gymdeithas, gan ennyn ymateb cymharol elyniaethus y gymdeithas i'r ymyrraeth hwnnw o bryd i'w gilydd. Y syndod yw fod y cofnodion yn tystio mai ychydig iawn o ymosodiadau ar yr heddlu a welwyd, sydd yn awgrymu nad oedd yr elyniaeth mor daer, ym Meirionydd beth bynnag.

Mae rhai troseddau a chanddynt nodweddion troseddu mewn cymdeithas wledig, yn arbennig y troseddau potsiera a'r troseddau sy'n gysylltiedig â'r tollbyrth. Rhain yw y "troseddau cymdeithasol",<sup>1</sup> a gellir dadlau mai'r amgylchiadau cymdeithasol sy'n esgor ar y troseddu. Ym Meirionydd, yr oedd Cymreictod cadarn ardaloedd diwydiannol fel Blaenau Ffestiniog, a'r ffaith nas boddwyd hwn gan lif o fewnfudwyr o Loegr neu Iwerddon fel yn ardaloedd diwydiannol y de, yn esgor ar droseddu ac ymosodiadau yn erbyn y mewnfudwyr di-Gymraeg a oedd yn lleiafrif o fewn y gymdeithas yno. Ceir yn y troseddu yma flas gwrthryfel a phrotest boblogaidd, a pharodrwydd y dorf mewn ardaloedd poblog i

---

<sup>1</sup>Ibid, gwelem. 59.

weithredu'n uniongyrchol yn erbyn yr elfennau hynny a oedd yn bygwth eu buddiannau.

Bu'r cyfnod sy'n ffurfio testun yr arolwg yn un arwyddocaol iawn yn hanes Cymru. Yn etholiad cyffredinol 1859 enillodd y Ceidwadwyr y mwyafrif o'r seddau yng Nghymru, gan gadarnhau gafael y landlordiaid ar dirlun gwleidyddol y wlad. Yn etholiad cyffredinol 1865 y Rhyddfrydwyr a gafodd yr oruchafiaeth gan ennill y mwyafrif o'r seddau.<sup>112</sup> Ni fyddai'r Ceidwadwyr byth eto yn y mwyafrif, ac erbyn etholiad 1906 yr oeddent wedi suddo o'r golwg, gan fethu ag ennill un o'r seddau Cymreig.<sup>113</sup> Gan mai buddiannau'r bonheddwyr a'r tîrfeiddianwyr a gynrychioliod yn bennaf gan y Toriaid, a chan mai'r tîrfeiddianwyr hynny a ffurfiai rengoedd yr ynadon, sef cynheiliaid awdurdod y Llys Chwarter, y mae ceisio canfod arwyddion o'r newidiadau cymdeithasol yng nghofnodion y Llys yn orchwyl fuddiol. Efallai mai'r Llys Chwarter oedd fforwm gyhoeddus bwysicaf tîrfeiddianwyr y Sir. Y cyfnod rhwng 1859 a 1865 oedd y cyfnod rhwng parhad goruchafiaeth y landlord ym mywyd gwleidyddol Cymru a dechrau'r oes Ryddfrydol. A oes unrhyw dystiolaeth yn y cofnodion sy'n agor ein llygaid i agweddau'r tîrfeiddianwyr tuag at y datblygiadau hyn, a chymdeithas yn gyffredinol, yn y cyfnod rhwng etholiadau 1859 ac 1865?

Ceir yr argraff fod agwedd yr ynadon tuag at droseddu ychydig yn anrhagweladwy ac anwadal, a'u bod yn datgan sylwadau o'r fainc sydd yn siwtio eu hamcanion eu hunain. Ar yr un Haw, y mae yna awydd i feio mewnfudwyr am y cynnydd mewn troseddu yn y Sir. Y mae cadeiryddion y Llys yn arbed ar bob cyfle i bwysleisio natur ufudd y brodorion, ac ar y Haw arall ddiffyg gwarineb y mewnfudwyr o Loegr ac Iwerddon. Efallai mai rhyw frogarweh sentimental sydd wrth wraidd hyn. Gwelir hefyd, ar y Haw arall, awydd i arbed cam y mewnfudwyr pe digwyddai unrhyw ymosodiad arnynt neu weithredu yn eu herbyn, er bod datganiadau beirniadol y Fainc ohonynt yn siŵr o gynnu a chynnal fflamau anniddigrwydd. Bu'r cardotwyr o Saeson a Gwyddelod yn gocynau-hitio cyfleus iawn i'r ynadon, er mai brodorion o'r Sir oedd y troseddwy'r pennaf. Gwelir parodrwydd y Llys i gosbi'n drwm y rhai hynny a ladratai eiddo'r cyfoethogion, a hefyd ceir yr awydd i gosbi swyddogion y tollau

<sup>112</sup> Gweler John Davies, op. cit, t. 413.

<sup>113</sup> Ceir hanes y cyfnod yn Kenneth O Morgan, *Rebirth of a Nation* (Rhydychen, 1981), tt. 31-33.

pan gamddefnyddir y gyfundrefn. Gellir dadlau fod digwyddiadau etholiad 1859 wedi codi amheuon yng nghalonau'r landlordiaid nad oedd yr hen drefn i barhau. Cyfnod anniddig, ansicr a drwgdybus ydoedd i dirfeddianwyr a oedd yn graddol golli eu hunan-hyder ac yn wynebu'r gwrthwynebiad i barhad eu hawdurdod.

Er hyn, nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r ddamcaniaeth mai offeryn gormes yn nwylo'r bonedd oedd y Llys Chwarter, a'i fod yn sefydliad a enynnai wrthwynebiad gweddill cymdeithas.<sup>14</sup> I'r gwrthwyneb, mae parodrwydd achwynwyr i droi at y gyfundrefn am gyfiawnder, gan gofio mai ymysg haenau isaf y gymdeithas y perthyn y mwyafrif ohonynt, yn un o nodweddion mwyaf diddorol yr achosion. Efallai fod cynnal hawliau perchnogaeth eiddo yn un o swyddogaethau amlycaf y Llys oherwydd natur a sylwedd y gyfraith droseddol.<sup>15</sup> Nid dim ond y tinfeddianwyr oedd yn awyddus i warchod yr hawliau yma. Ychydig iawn o aelodau'r gymdeithas nad oedd ganddynt ryw eiddo i'w warchod. Fel y sylwom, roedd gweision ffermydd yn barod iawn i ddod â'u cwyn gerbron y Llys pe dygid eu heiddo gan eu cyd-weision.<sup>16</sup> Rhaid cofio hefyd mai nid o rengoedd y bonheddwyr y gwsyd aelodau rheithgorau prawf y Llys, ond o ddsbarth y tenantiaid ffermydd, tafarnwyr a siopwyr.<sup>17</sup> Roedd y Llys Chwarter yn fforwm a oedd yn cynnal buddiannau gwahanol haenau o'r gymdeithas, fel y dengys parodrwydd achwynwyr a thystion i ymddiried ynddi.

Ffrwyth ymchwil anorffenedig sydd yma. Maes o law bydd modd rhannu llafur ymchwil pellach ac ail-ystyried rhai o'r casgliadau. Efallai mai yr hyn a wna'r cofnodion, yn gymaint a'n goleuo ynglŷn â natur ac amllder troseddu'r cyfnod hwn ym Meirionydd, yw adlewyrchu agweddau cymdeithas tuag at droseddu a'r parodrwydd i erlyn drwgweithredwyr yn y llysoedd barn. Dyma'r troseddau yr oedd y cyfundrefnau answyddogol

<sup>14</sup> Gweler, er enghraifft, Douglas Hay & others, *Albion's Fatal Tree. Crime and Society in Eighteenth Century England* (Llundain, 1975) tt. 17-19. Beirniadwyd y theori hwn yn J.H. Langbein, "Albion's Fatal Flaws", (1983) 98 *Past and Present*, tt. 96-120.

<sup>15</sup> *Ibid.*

<sup>16</sup> Gweler n. 43.

<sup>17</sup> Gweler Richard Ireland, op. cit. Roedd cymwysterau meddiant eiddo ar gyfer aelodaeth o reithgor prawf yn y Llys Chwarter Sirol yn is yng Nghymru nag yn Lloegr.

wedi methu neu wrthod delio â hwy. Mae cofnodion y troseddau yn ymwneud ag ymosodiadau gwŷr ar eu gwragedd yn awgrymu nad teclynnau diymadferth ar drugaredd eu gwyr heb unrhyw amddiffyniad gwladwriaethol oedd merched y cyfnod hwn.<sup>118</sup> Yr oedd y gyfundrefn yn barod i weithredu yn erbyn gwyr treisgar a'u carcharu mewn rhai achosion."<sup>9</sup> Mae hyn yn gwrthbrofi'r syniad mai yn y dirgel a thrwy ddulliau answyddogol yn unig y byddai'r fath weithredoedd yn cael eu cosbi. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r syniad fod parodrwydd ymysg unigolion o bob dosbarth cymdeithasol i droi at y gyfundrefn i gynnal eu buddiannau. Ac efallai mai dyma'r nodwedd mwyaf trawiadol yng nghofnodion Llys Chwarter Meirionydd yn ystod chwedegau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

---

<sup>118</sup>Gwelern. 78.

<sup>9</sup>Gwelern. 79.



TROSEDD A CHOSB YM MEIRIONYDD

**ATODIAD**

**Crynodeb o Euogfarnau Troseddol  
Llys Chwarter Sir Feirionydd 1860-65**

Meddwdod	56
Difrod Troseddol	19
Ymosodiadau Cyffredinol	31
Ymosodiadau ar yr Heddlu	8
Ymosodiadau gyda'r Bwriad o Reibio yn Rhywiol	1
Cardota a Begera	14
Potsiera	16
Troseddau Rheolau'r Priffyrdd	15
Troseddau Rheolau'r Tollbyrth	5
Troseddau Pwysau a Mesurau	43
Lladrata	64
Twyll	7
Bwrgleriaeth	13
Troseddau Trwyddedu Drylliau	4
Troseddau Trwyddedu Alcohol	5
Cam-drin Anifeiliaid	3
Ffoi o'r Fyddin neu Filisia	1
Terrÿsg a Throseddau Trefn Cyhoeddus	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>311</b>